

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

**Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
yng Nghymru**

Yr Athro Ralph Tabberer

Gorffennaf 2013

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

Fis Medi 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau adolygiad o ansawdd a chysondeb Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yng Nghymru. Rhan o gynllun diwygio amlweddol a luniwyd i godi safonau yn ysgolion Cymru yw'r adolygiad.

Dilynodd yr adolygiad ad-drefnu a gynhaliwyd o ganlyniad i adolygiad Furlong yn 2006, a arweiniodd at sefydlu tair Canolfan HCA ar gyfer gwahanol ranbarthau Cymru.

Araf fu'r cynnydd o ran gwella HCA ers yr adolygiad yn 2006 ac nid yw Cymru eto'n cyrraedd y prif meincnodau rhyngwladol y mae'n anelu atynt. Ar adeg yr adroddiad hwn, ar un Ganolfan yn unig y cyhoeddwyd tystiolaeth arolygu annibynnol ond mae arwyddion clir bod safonau ledled Cymru yn ddigonol yn hytrach na da. Mae her allweddol yn parhau, sef sicrhau bod ansawdd ac arfer HCA yn dod yn fwy cyson.

Bu'r Canolfannau newydd yn araf o ran rhoi'r dull rheoli cryfach a mwy cydlynol ar waith, sef yr hyn sydd arnynt eu hangen er mwyn cyfnerthu arferion gorau HCA a sicrhau safonau uchel cyson.

Er mwyn codi perfformiad HCA, argymhellir mynd ati fesul cam i fynd i'r afael â'r holl nodweddion sy'n wan o'u cymharu â pherfformwyr uchaf y byd, fel Singapôr, y Ffindir a Chanada. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys 15 o argymhellion penodol gyda'r bwriad o ddod â phawb ynghyd i wella ansawdd yn y sector.

Y cam cyntaf yw gwella arweiniad y sector cyfan yng Nghymru oherwydd bu tuedd i HCA fod ar ymylon polisi ysgol a diwygio. Bydd ymwneud cryfach rhwng y cyrff rheoleiddio fel yr Adran Addysg a Sgiliau, Estyn, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a Chyngor Addysg Uwch Cymru yn ofynnol er mwyn gwneud gwelliannau. Dylai'r ymwneud hwn ganolbwyntio ar godi ansawdd trwy ymdrechion ar y cyd â ffocws, sy'n gorfodi darparwyr HCA i godi'u safonau.

Byddai'n fuddiol pe bai'r cyrff rheoleiddio, gyda'i gilydd, yn dangos yn fwy eglur fyth i ysgolion bwysigrwydd cryfhau addysg athrawon, boed mewn swydd neu'n gychwynnol.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Un o'r argymhellion yw i Gymru ystyried cynllun Ysgol Hyfforddi sy'n dod â chydabyddiaeth i ysgolion sy'n rhagori o ran HCA a datblygiad proffesiynol parhaus.

Argymhellir bod Cymru'n parhau gyda chynlluniau sy'n darparu cymhellion i'r ymgeiswyr mwyaf disglair. Er bod llawer o gyrsiau yn llwyddo wrth recriwtio, nid ydynt bob amser yn denu'r graddedigion gorau oll. Dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth yn ei gallu i gadarnhau statws uchel y proffesiwn addysgu, fel ei fod yn denu'r goreuon oll ym mhob carfan graddedigion.

Dylai Is-gangellorion, ac uwch-reolwyr pob Sefydliad Addysg Uwch sy'n chwarae rhan mewn HCA, gymryd rhan mwy gweithredol wrth reoli'r newidiadau gofynnol ac wrth wella meysydd fel rheoli perfformiad ac ymchwil. Mae cryn le i Ganolfannau HCA fabwysiadu dulliau ar y cyd o fynd ati yn y meysydd hyn, yn ogystal â mewn mentora ac asesu hyfforddeion.

Dengys yr adolygiad hwn yr angen am reolaeth well a chydweithredu mwy effeithiol fel sylfeini gwella HCA yng Nghymru. Ond dylai darparwyr hefyd ddeall, pe bai'r gwendidau presennol yn parhau a phe byddent yn methu â chyrraedd y nod, boed yn unigol neu ar y cyd, mae gan yr Adran Addysg a Sgiliau a CCAUC y pwerau i ailddosbarthu cyfran helaeth o hyfforddeion i ddarparwyr parod a galluog.

Mae'r adolygiad hwn yn edrych ymlaen at yr adolygiadau cynlluniedig i Safonau Athrawon wrth eu Gwaith, a fydd yn rhoi cyfle i alinio'r holl safonau sy'n rheoli gyrfaoedd cynnar athrawon. Trwy gynhyrchu dilyniant eglur, wedi'i gynllunio, bydd yn haws osgoi gorlwytho darpariaeth HCA gyda gormod o flaenoriaethau, a bydd yn helpu i sicrhau bod sgiliau pwysig o ran rheoli ymddygiad ac anghenion arbennig yn cael eu hatgyfnerthu'n briodol a'u cryfhau dros amser.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Pennod 1: Rhagarweiniad

1. Fis Medi 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau adolygiad o ansawdd ac effeithiolrwydd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) yng Nghymru, i'w gynnal yn ystod y flwyddyn academaidd 2012/13.
2. Yr Athro Ralph Tabberer ymgwymerodd â'r gwaith adolygu gan ddechrau'r gwaith fis Hydref 2012. Gyda chefnogaeth gweithredol pob rhanddeiliad, cwblhawyd yr adolygiad fis Mai 2013. Bwriad yr adroddiad hwn a'i argymhellion yw darparu gwybodaeth ar gyfer polisi'r dyfodol, a bydd ymgynghori helaeth ar ran ohono.
3. Cwmpas yr adolygiad oedd mynd i'r afael â HCA sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) i athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru (gweler Atodiad C). Mae hyn yn cynnwys darpariaeth cyrsiau gradd ac ôl-radd y mae Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn eu darparu ar hyn o bryd, gan gynnwys cyrsiau dysgu o bell y mae'r Brifysgol Agored yn eu darparu, a hyfforddiant athrawon seiliedig ar gyflogaeth a ddarperir dan Raglen Athrawon Graddedig (RhAG).
4. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sydd fwyaf pwysig o ran codi ansawdd addysgu, fel a ganlyn:
 - a) ansawdd a chysondeb addysgu, hyfforddi ac asesu mewn HCA
 - b) strwythur cyrsiau HCA a chwmpas materion penodol mewn HCA
5. Aeth yr adolygiad i'r afael ag ystod o faterion, gan gynnwys:
 - y cydbwysedd rhwng profiad addysgu ymarferol mewn ysgol a hyfforddiant a arweinir gan brifysgol
 - hyd cyffredinol cyrsiau HCA
 - a yw pynciau a thestunau penodol yn cael eu cwmpasu'n ddigonol ar gyrsiau HCA
 - sut mae'r sector yn ymgysylltu ag ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod cyrsiau HCA yn cynhyrchu ANG sy'n ateb eu hanghenion.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

6. Daeth yr adolygiad bron saith mlynedd ar ôl Adolygiad Furlong o ddarpariaeth HCA yng Nghymru (Furlong et al., 2006). Fis Ionawr 2006, argymhellodd Adolygiad Furlong newidiadau strwythurol a threfniadaethol a fwriadwyd i ddiwygio tirlun darparu hyfforddiant HCA a sicrhau dyfodol hyfyw i'r prif ddarparwyr, yn addysgol ac yn ariannol.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Pennod 2: Cyd-destun

7. Yn 2006, gwnaeth Adolygiad Furlong 36 o argymhellion a luniwyd i wella HCA yng Nghymru, gan gynnwys:
 - a. gwell cynllunio gweithlu ac olrhain cyrchfannau hyfforddeion;
 - b. canolbwyntio mwy eglur ar baratoi hyfforddeion i addysgu yn ysgolion Cymru;
 - c. cwtdogi ar nifer y lleoedd HCA, er mwyn cyfateb cyflenwad a galw;
 - d. symud at lwybr mynediad llwyr ôl-raddedig i addysgu, gan ddiddymu BA (Addysg) yn raddol;
 - e. parhad o ran uned yr adnoddau;
 - f. amddiffyn, ac, os yn bosibl, cynyddu niferoedd yr iaith Gymraeg;
 - g. sefydlu tair prif Ysgol Addysg, yn darparu hyfforddiant ac ymchwil;
 - h. y Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CSCC) i gynnal arolwg ANC blynyddol;
 - i. cyflwyno Ysgolion Dysgu a Datblygu Proffesiynol;
 - j. newidiadau i ymsefydlu, gan gynnwys cyflwyno cymwyseddau priodol ar gyfer datblygu proffesiynol cynnar; a
 - k. chorff ymgynghorol newydd gyda'r bwriad o ddwyn darparwyr HCA ynghyd yn genedlaethol.

8. Bu Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion Adolygiad Furlong ac, ar 26 Mawrth 2006, cyhoeddwyd Cynllun Newid HCA a'i drafod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda'r nod o alinio HCA â'r galw yn well erbyn 2010/11. Ers 2006, gwelwyd:
 - a. cwtdogi sylweddol o ran niferoedd derbyn HCA ar waith;
 - b. gwelliannau i gynllunio gweithlu athrawon, gan gynnwys datblygu Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon i Gymru;
 - c. ad-drefnu darpariaeth HCA a arweiniodd at sefydlu tair prif Canolfan HCA;
 - d. codi ansawdd llwybrau seiliedig ar gyflogaeth i addysgu a gosod gofynion mynediad penodol ar gyfer y llwybr hwn;
 - e. adolygu darpariaeth HCA cyfrwng Gymraeg; a
 - f. chyflwyno newidiadau i ofynion rheolaethol HCA i gefnogi newidiadau mewn darparu HCA.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

9. Bu lleihad yn niferoedd derbyn HCA o tua 33 y cant o ran nifer yr athrawon newydd yn dod i HCA ers 2004/5.
10. Y prif ddiwygiad oedd cyfnerthu darpariaeth mewn tair Canolfan HCA newydd, yn gwasanaethu gwahanol ranbarthau Cymru. Yn 2006, dywedodd awduron adroddiad Furlong:

“Os yw HCA yn mynd i chwarae’i ran o ran wynebu heriau yfory, yna mae ar Gymru angen sector HCA sydd o ansawdd uchel, yn gryf ac yn ddiogel yn ariannol ac yn gallu cofleidio newid a helpu i arwain newid ei hunan.”
11. Y tair prif Ganolfan HAC yw:
 - Canolfan Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon – (yn dwyn Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor ynghyd)
 - Addysg a Hyfforddiant Athrawon De-orllewin Cymru (yn dwyn ynghyd yr hyn a oedd ar y pryd yn Brifysgol Fetropolitan Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin – bellach wedi’u cyfuno yn Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)
 - Canolfan De-ddwyrain Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Athrawon (yn dwyn ynghyd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd a’r hyn sydd bellach yn Brifysgol De Cymru, wedi i Brifysgol Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg uno)
12. Sector HCA gweddol fach sydd yng Nghymru ac mae gofyn iddo ddarparu athrawon newydd o ansawdd a hefyd gwasanaethu’r rhanbarthau, sy’n amrywiol o ran dwysedd poblogaeth a’r iaith Gymraeg a thraddodiadau Cymreig. Dangosodd Adolygiad Furlong y ffordd at ddatrysiad ymarferol a helpodd Gymru i resymoli darpariaeth HCA, wrth leihau niferoedd ei hyfforddeion, a oedd yn rhy uchel. Cafodd y datrysiad a fabwysiadwyd wared ar y risg y byddai tarfu difrifol ar gydbwysedd a chwmpas y ddarpariaeth mewn marchnad oedd yn lleihau – ynghyd â’r ansawdd – ledled Cymru.
13. Ar adeg yr adolygiad hwn, dyma nodweddion allweddol yr HCA:
 - ar gyfer blwyddyn academiaidd 2013/14, dyrannwyd 1630 o leoedd i ddarparwyr HCA, sef 750 lle cynradd a 880 lle uwchradd
 - mae bron pob hyfforddai uwchradd yn cael mynediad trwy lwybr ôl-radd neu lwybrau newydd (gweler isod)
 - mae tua 60 y cant o hyfforddeion cynradd yn cael mynediad trwy lwybr ôl-

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

radd a 40 y cant trwy lwybr gradd, na chafodd ei gau, er bod niferoedd ar y llwybr hwn wedi lleihau yn sylweddol

- tair prif Canolfan HCA, yn cynnwys partneriaethau rhwng sefydliadau AU yng Nghymru
- y Brifysgol Agored yn gweithredu fel darparwr pellach, gan roi llwybr dysgu o bell hyblyg at SAC ar waith mewn rhai pynciau uwchradd penodol
- darpariaeth seiliedig ar gyflogaeth trwy'r Rhaglen Athrawon Graddedig, sydd â thua 60 o leoedd ar gael bob blwyddyn
- bydd darparwyr yn destun arolygiad gan Estyn, sydd wedi cyflawni tua deuparth o'u cylch arolygu HCA cyntaf ers 2005

14. Hefyd, mae mentrau newydd wedi cychwyn ail-lunio amgylchedd HCA. Mae mwy o fanylion wedi'u darparu yn Atodiad B ac un o'r diwygiadau pwysicaf yw cyflwyno Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MEP). Dengys hyn ymdrech i sefydlu mynediad ar lefel Meistr i hyfforddeion y dyfodol. Mae cyflwyno Teach First (gweler paragraff 96) yn dod â chyfleoedd pellach.
15. Yn olaf, mae'n bwysig cydnabod bod tirlun HCA yng Nghymru yn cael ei newid gan don newydd o ddiwygiadau mewn ysgolion, wedi'u llunio i fynd i'r afael â pherfformiad ysgolion a chyraeddiadau myfyrwyr.
16. Cyflwynwyd y diwygiadau hyn yn gyntaf mewn cynllun ugain pwynt ar gyfer diwygio a gyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Chwefror 2011. Ymhlith mesurau yng nghynllun llawn rhoi 'Gwella Ysgolion' ar waith, mae mesurau i gryfhau arweinyddiaeth ysgolion, datblygiad proffesiynol, llywodraethu, rheoli perfformiad, llythrennedd a rhifedd, arolygu, addysg cyfrwng Cymraeg, ymddygiad a phresenoldeb, cynhwysedd, a diogelu a chefnogi plant agored i niwed yn ogystal â HCA (Llywodraeth Cymru, 2012).
17. I grynhoi, wedi gweld canlyniadau siomedig mewn asesiadau rhyngwladol o berfformiad myfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i greu, yn systematig, hinsawdd newydd o ddisgwyliadau uwch i ysgolion. Mae hyn yn hollbwysig o ran deall cyd-destun yr adolygiad hwn oherwydd, yn ei graidd, y prif gwestiwn y dylid mynd i'r afael ag ef yw p'un a yw HCA yn gallu chwarae'r rhan y dylai ei chwarae mewn codi safonau yn ysgolion Cymru.

Pennod 3:

Safonau o ansawdd byd-eang HCA

18. Yn eu hadroddiad yn edrych ar pam fod gan rai gwledydd systemau addysg cryf, ac eraill rai gwan, gwnaeth Barber a Mourshed (2009) y sylw mai ansawdd addysgu yw'r peth pwysicaf o ran penderfynu deilliannau myfyrwyr. Roedd hyn yn atgyfnerthu'r neges ganddynt mewn adroddiad cynharach (2007) ar y systemau ysgol sy'n perfformio orau yn y byd.

“Ni all ansawdd y system addysg fod yn well nag ansawdd ei hathrawon.”

19. Dengys eu sylwadau y drafodaeth ar hyn o bryd, ledled y byd, am ddyfodol diwygio ysgolion. Mae HCA yn bendant yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd addysgu ym mwyafrif y gwledydd sydd â systemau ysgol datblygedig. Mae'r sector HCA yn effeithio ar nifer llai o lawer na'r sector Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ond, oherwydd hyd y cyrsiau a'i safle ar ddechrau cyntaf gyrfa broffesiynol athrawon, mae'n hynod bwysig yn strategol. Gall sefydlu gwerthoedd proffesiynol, arferion ac ymddygiadau sy'n helpu i arwain gyrfa athro.
20. O ystyried cyd-destun diwygio ysgolion yn ehangach yng Nghymru, mae'n rhesymol gosod arfer HCA cyfredol yn erbyn meincnod ansawdd rhyngwladol. Mewn adroddiad OECD diweddar, rhoddodd Andreas Schleisser (2012) grynodedeb o nodweddion allweddol systemau llwyddiannus, ac mae'n werth dyfynnu ei ganlyniadau yn fanwl:

“Er nad yw efallai mor ganolog i gyfateb y galw am athrawon â'r cyflenwad, mae addysg gychwynnol athrawon yn rhan bwysig arall o'r hafaliad i sicrhau cyflenwad o athrawon o ansawdd uchel yn y tymor hir. Mae ymchwil OECD (OECD, 2010) wedi dynodi rhai egwyddorion sy'n werth eu nodi:

- *Caiff systemau addysg fudd o broffiliau eglur a chryno o'r hyn y mae disgwyl i athrawon ei wybod ac y maent yn gallu ei wneud mewn meysydd pwnc penodol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth bynciol yn ogystal â'r wybodaeth ynghylch sut i'w haddysgu. Gall proffiliau o'r fath arwain addysg athrawon, ardystio athrawon, gwerthuso parhaus athrawon, datblygiad proffesiynol athrawon a'u dyrchafiad gyrfaol, a hefyd helpu i asesu i ba raddau mae'r gwahanol elfennau hyn yn effeithiol. Gall y proffiliau adlewyrchu amcanion dysgu'r ysgol a dealltwriaeth ledled y proffesiwn o'r hyn sy'n cyfrif fel addysgu medrus.*
- *Mae llawer gwlad wedi symud eu rhaglenni addysgu athrawon*

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

cychwynnol tuag at fodel wedi'i seilio'n llai ar baratoi academaidd a mwy ar baratoi pobl proffesiynol mewn lleoliadau ysgolion, gyda chydbwysedd priodol rhwng theori ac ymarfer a chydweithredu ymhlith athrawon fel agwedd allweddol. Yn y rhaglenni hyn, mae athrawon yn cyrraedd yr ystafelloedd dosbarth yn gynharach, yn treulio mwy o amser yno ac yn cael mwy a gwell cefnogaeth yn y broses. Gall hyn gynnwys gwaith cwrs helaeth ar sut i addysgu – gyda phwyslais cryf ar ddefnyddio ymchwil wedi'i seilio ar yr arfer diweddaraf – a mwy na blwyddyn yn addysgu mewn ysgol benodedig, yn gysylltiedig â'r brifysgol. Yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir i'r athro ddatblygu arferion arloesol a'u rhoi ar brawf, a chynnal ymchwil ar ddysgu ac addysgu, mewn partneriaeth ag athrawon eraill a than arweiniad athrawon medrus. Mae Hyfforddiant Prifysgol y Ffindir yn enghraifft amlwg o roi y fath ddull ar waith yn effeithiol.

- *Gall strwythurau mwy hyblyg o addysg cychwynnol athrawon fod yn effeithiol o ran agor llwybrau newydd i'r yrfa addysgu, heb fwgwth manyldeb llwybrau traddodiadol. Mae angen i gamau addysg athrawon cychwynnol, ymsefydlu a datblygiad proffesiynol fod yn gydgysylltiedig i greu fframwaith ddysgu gydol oes i athrawon. Mewn llawer gwlad, mae mwy i addysgu athrawon na darparu hyfforddiant sylfaenol gadarn mewn gwybodaeth bynciol yn unig, addysgu sy'n gysylltiedig â phynciau a gwybodaeth gyffredinol am addysgu; mae hefyd yn ceisio datblygu sgiliau ar gyfer arfer myfyriol ac ymchwil yn y gwaith. Fwyfwy, mae tuedd i addysg gychwynnol athrawon bwysleisio datblygu galluedd athrawon mewn hyfforddiant i roi diagnosis o broblemau myfyrwyr yn gyflym ac yn gywir ac i dynnu o stôr eang o ddatrysiadau posib i ddod o hyd i'r rhai priodol ar gyfer y diagnosis. Mae rhai gwledydd yn darparu'r sgiliau ymchwil i'w hathrawon sydd eu hangen i'w galluogi i wella'u harfer mewn ffyrdd systematig. Er enghraifft, yn y Ffindir, rhanbarth Shanghai yn Tsieina a sawl rhan o'r Unol Daleithiau, mae athrawon yn cael eu hyfforddi i fod yn ymchwilwyr gweithredol o ran arfer, gyda'r gallu i gynllunio dulliau i sicrhau bod unrhyw fyfyrwr sy'n dechrau cwmpo'n ôl yn derbyn help effeithiol.*
- *Ar ben hynny, mae rhai gwledydd wedi symud o system lle mae athrawon yn cael eu recriwtio i nifer mawr o golegau addysgu athrawon arbenigol, gyda safonau mynediad cymharol isel, i nifer llai o golegau addysgu athrawon mewn prifysgolion, gyda safonau mynediad cymharol uchel a statws cymharol uchel yn y brifysgol."*

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

21. Gan dynnu ar waith yr OECD, a gwaith McKinsey ar hanes diwygio gwledydd unigol, mae'n bosib cynllunio nodweddion nodedig HCA a datblygiad ehangach athrawon mewn systemau sy'n perfformio'n uchel.
22. Y pwynt diddorol am y systemau lle mae ansawdd athrawon yn gryf – a lle y canfyddir bod datblygu athrawon yn gryf – yw nad ydynt yn cael eu hadnabod o strwythurau. Mae sylwebwyr fel rheol yn edrych tuag at wledydd fel y Ffindir, Singapôr, Taiwan a Chanada fel enghreifftiau lle mae perfformiad mewn profion rhyngwladol ar gyrhaeddiad myfyrwyr yn gryf ac mae paratoi at addysgu yn dda. Un darparwr HCA yn unig sydd gan rai ohonynt ac mae eraill yn dibynnu ar nifer bach o ddarparwyr ac, mewn achosion eraill, mae mwy o lawer gyda chyfrifoldebau wedi'u datganoli. Nid yw strwythur sefydliadol HCA yn ymddangos fel mater holl- bwysig.
23. Mae'r Ffindir yn enghraifft lle mae addysg yn ffactor annatod o ddiwylliant a chymdeithas y wlad, a rhoddir y parch a'r ymddiriedaeth mwyaf i athrawon (Sahlberg, 2010). Mae'r holl hyfforddiant wedi'i leoli yn un o'r wyth prifysgol, yn cychwyn gyda chwrs gradd ac yn cael ei gefnogi gan fethodoleg ymchwil addysgol a chynnwys gwyddonol. Lefel mynediad ar gyfer mwyafrif cyflogaeth barhaol fel athro yw gradd meistr a disgwylir ymchwil annibynnol, sy'n golygu y gall hyfforddi barhau am bum i saith mlynedd. Mae gan athrawon cyn-ysgol ac ysgolion meithrin radd baglor.
24. Yn y Ffindir, mae hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddatblygu 'sgiliau meddwl pedagogaidd' ac yn cyfuno cryfderau pynciol â dulliau pedagogaidd a theori addysgol. Er bod pob prifysgol yn annibynnol, mae gan bob adran addysg strategaeth fanwl a gorfodol ar gyfer gwella ei rhaglenni addysgu athrawon. Bydd ymgeiswyr yn mynd ymlaen o'r sylfaenol i'r uwch ac yna at ymarfer terfynol, gyda'u prif ymarfer dysgu fel rheol yn cael ei gynnal mewn Ysgolion Hyfforddi Athrawon arbennig y mae'r prifysgolion yn eu rheoli ac sy'n gweithredu yn debyg i ysgolion cyhoeddus arferol. Datganolir cyfrifoldeb dros ymsefydlu a datblygu proffesiynol parhaus ac mae mwy o amrywiaeth o ran ansawdd rhaglenni.
25. Ail enghraifft yw Singapôr. Yn yr achos hwn, mae HCA wedi'i ganolbwyntio yn y Sefydliad Addysg Cenedlaethol (NIE) sy'n rhan o Brifysgol Dechnolegol Nanyang. Ers 1971, dyma'r unig ddarparwr HCA ac mae Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Addysg yn cadeirio'r corff llywodraethu. Mae 12 grŵp academaidd yn goruchwyllo strwythur rheoli'r sefydliad, sy'n goruchwyllo cyflenwi graddau israddedig, ôl-raddedig, diploma a graddau uwch mewn addysg, yn ogystal â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

26. Mae NIE wedi mabwysiadu a mireinio Model Addysgol Athro a luniwyd i drawsnewid cynllunio, cyflwyno a gwerthuso eu rhaglenni. Mae gan y model elfennau o werthoedd, sgiliau a gwybodaeth ac mae'n adlewyrchu fframwaith cymhwysedd y Weinyddiaeth. Mae'n rhoi pwyslais ar roi dysgu wrth galon gwaith athrawon, bod â disgwyliadau a safonau uchel a throsglwyddo awydd cryf i ddysgu, ac athrawon yn ymrwymo i'w datblygiad proffesiynol eu hunain (NIE, 2009). Awgryma adolygiadau diweddar yn Singapôr fod ar athrawon dan hyfforddiant angen mwy o wybodaeth pedagogaidd yn ogystal â chryfder pynciol (NIE, 2011).
27. Rhy NIE hefyd lawer o sylw i'r bwch rhwng theori ac ymarfer mewn athrawon dan hyfforddiant. Mae'n darparu sylfaen da mewn arfer ysgol ac yn annog ymholiad neu ymchwil mewn ysgol. Mae'r pwyslais fwyfwy ar werth dysgu drwy brofiad. Mae yna raglen hyfforddi mentoriaid wedi'i theilwra. Fel yn y Ffindir, maen nhw'n mynd ati i hybu addysgu fel proffesiwn â statws uchel.
28. Yng nghyfres Papur Gweithio Addysg yr OECD, mae Musset yn archwilio arferion presennol mewn gwahanol wledydd ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd addysgu athrawon (Musset, 2011):
- “Mae addysgu athrawon yn bwysig oherwydd ei effaith ar ansawdd athrawon. Mae addysgu yn waith deallusol cymhleth sy'n gofyn llawer, ac ni ellir ei gyflawni heb baratoi digonol. Mae addysgu athrawon yn sicrhau bod athrawon yn gymwysedig – a hefyd eu bod yn parhau felly, ac yn sicrhau eu bod yn parhau yn frwdfrydig dros amser (Eurydice, 2004). Dengys ymchwil mai'r dull mwyaf effeithiol o godi ansawdd addysg yw addasu addysgu a recriwtio cychwynnol athrawon, a datblygu'r modd i hyfforddi athrawon sydd eisoes mewn swydd; yn wir, mae addysgu athrawon yn cael effaith sylweddol ar ymddygiadau a sgiliau addysgu athrawon, ac ar ddeilliannau myfyrwyr.”*
29. Mae Musset yn nodi sawl nodwedd gyffredin mewn systemau HCA blaengar: cydbwysedd o ran darpariaeth sy'n mynd i'r afael â deunydd pynciol (gwybodaeth gynnwys), technegau addysgu (gwybodaeth am addysgu) a phrofiad ymarferol mewn ysgol.
30. Disgrifia Musset yr amrywiaeth sy'n bodoli o ran trefniadaeth HCA, er enghraifft: ym modolaeth modelau traddodiadol (llwybr isradd ac ôl-radd) a modelau newydd (llwybrau amgen) darpariaeth HCA, yr amrywiaeth o ran nodweddion sefydliadol, yr amrywiaeth o ran hyd cyrsiau; a bodolaeth rhaglenni cyfredol (addysgu gwybodaeth academiaidd a gwybodaeth bedagogaidd yr un pryd) ac

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

olynol (hyfforddi athrawon ar ôl i unigolyn ennill corff cryf o wybodaeth bynciol). Ymhlith yr argymhellion a wna'r adroddiad o ran diwygio mae: cynyddu cydlynad rhwng yr addysg a dderbynia athrawon a'r hyn sy'n digwydd mewn ystafell ddosbarth mewn gwirionedd; gweld addysgu athrawon fel continwmm; cydnabod pwysigrwydd DPP; cydweithio agosach rhwng gwahanol ddarparwyr addysg; cefnogi rhaglenni newydd mewn ysgolion; a gwneud addysgu athrawon yn fwy hyblyg.

31. Cynhaliodd Musset hefyd adolygiad llenyddiaeth, gan archwilio nodweddion systemau cenedlaethol gwahanol. Daeth i'r casgliad:

“Mae addysg athrawon cyflawn yn cyfuno gwybodaeth bynciol gref gyda gwybodaeth bedagogaid, y gallu i gydweithredu gyda gwahanol actorion (myfyrwyr/cydweithwyr/gweinyddwyr), a'r gallu i barhau i ddatblygu'r sgiliau hyn ac i ddeall cyd-destun trylwyr yr ysgolion lle maen nhw'n addysgu. Dylid llunio rhaglenni addysgu athrawon fel ysgogiad i ddod â'r bobl briodol i mewn i addysgu a'i wneud yn ddigonol o ran anghenion penodol y wlad, gan ddibynnu ar ansawdd a nifer athrawon y dyfodol a ystyrir yn addas.”

32. Cynhaliodd Menter et al. adolygiad pellach o'r llenyddiaeth (2010), i gefnogi adolygiad Donaldson o addysg athrawon yn yr Alban (Donaldson, 2011). Mae'r awduron yn cynnwys nodweddiad ac amlinelliad defnyddiol o ddulliau addysgu athrawon yn Yr Alban, Awstralia, Canada, Lloegr, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Eidal, Siapan, Yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Gogledd Iwerddon, Norwy, Singapôr, De Korea, UDA a Chymru. Maen nhw'n gwneud sylwadau ar natur dameidiog yr ymchwil ond yn dwyn sylw at nifer o gasgliadau pwysig gan gynnwys amrywiaeth rhwng gwledydd o ran y graddau y mae cyfrifoldeb dros safonau a disgwyliadau yn cael eu datganoli.
33. Cytunodd astudiaeth o addysgu athrawon yn yr Undeb Ewropeaidd (FIER, 2007) ac adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd ar ansawdd addysgu athrawon (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2007) wrth gymeradwyo datblygu continwmm o ddatblygiad proffesiynol athrawon a datblygu 'addysg athrawon yn seiliedig ar ymchwil'.
34. Dengys tystiolaeth o'r adnoddau hyn, ac o adolygiad trylwyr o bolisi addysgu athrawon yn yr UDA (Darling-Hammond, 1999), nad materion strwythurol sy'n gyffredin rhwng performwyr cryf, ond arweddion a nodweddion eglur. Ymhlith y rhain oedd:
 - a. Fframwaith rheoleiddio eglur

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

- b. 'Arweinyddiaeth sector' sy'n drefnus, â chysylltiadau da ac yn ymgynghorol
 - c. Darparwyr cryf (neu un darparwr cryf) sy'n cael eu harwain yn dda yn lleol
 - d. Hyfforddiant cryf a modelau pedagogaid sy'n treiddio i bob rhaglen
 - e. Dull o fynd ati seiliedig ar 'theori ymarferol' yn cynnwys lefelau uchel o ymarfer mewn ysgol
 - f. Cryfderau pwnc ac arbenigol ymhlith y tiwtoriaid ac yn y gyfadran
 - g. Fframwaith eglur ar gyfer 'datblygiad proffesiynol cynnar' sy'n rhedeg trwy HCA, ymsefydlu a blynyddoedd cynnar gyrfa athro
 - h. Ymchwil wedi'i alinio i'r modelau HCA ac ymarfer, gan helpu i ffurfio ac ailffurfio dulliau o fynd ati dros amser
 - i. Proffesiwn statws uchel sy'n denu'r graddedigion gorau
 - j. Ysgolion yn gweithio mewn partneriaethau tymor hir gyda darparwyr addysg uwch, gan ddefnyddio'r un modelau pedagogaid
 - k. Diwylliant cryf, ac arfer, o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn yr ysgolion
 - l. Atebolrwydd i holl ddarparwyr HCA, gyda'i gilydd ac yn unigol
 - m. Data da ar gael sy'n helpu darparwyr werthuso perfformiad ac olrhain eu cynnydd eu hunain dros amser
 - n. Cyfeiriadu diwyro i wella holl raglenni ac arfer HCA yn barhaus
35. Bydd hyn yn darparu fframwaith defnyddiol i bwysu'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella o ran darpariaeth HCA yng Nghymru ar hyn o bryd.

Pennod 4: Trosolwg o ansawdd a chysondeb HCA yng Nghymru

36. Digonol yw safon HCA yng Nghymru ar hyn o bryd, a dim gwell. Ni ddaw y farn

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

- hon o gasgliadau Estyn yn unig, sydd bron â bod wedi cyflawni deuparth rhaglen o archwilio'r tair Canolfan HCA newydd yng Nghymru. Mae darparwyr, swyddogion a rhanddeiliaid blaenllaw yn rhannu'r asesiad hwn.
37. Nid yw hyn yn golygu fod athrawon newydd gymhwyso Cymru yn wael. I'r gwrthwyneb, mae mwyafrif llethol yr hyfforddeion yn mynd i mewn i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru gyda sgiliau sy'n hanfodol i'r proffesiwn modern: mae ganddyn nhw wybodaeth bynciol neu wybodaeth arbenigol arall resymol, maen nhw wedi'u hyfforddi i ddefnyddio technegau ystafell ddisbarth modern ac effeithiol ac maen nhw'n gwybod sut i ymddwyn yn broffesiynol, gan roi sylw manwl i addysg a lles y plant dan eu gofal. Mewn cystadleuaeth ryngwladol, byddai mwyafrif athrawon newydd gymhwyso Cymru yn gyflogadwy iawn.
38. Yr her yw y gallai HCA fod yn well. Ac i helpu codi safonau ledled Cymru, mae angen iddo fod yn well o lawer.
39. Dengys y dystiolaeth oddi wrth arolygu a hunanwerthuso nad yw darpariaeth HCA yng Nghymru yn cyrraedd y safonau a osodir gan berfformwyr uchaf y byd. Mae'r gwendidau a welwyd yn arolygiad Estyn yn 2011/12 yn y de-orllewin, a oedd yn cynnwys un coleg a ystyriwyd yn 'dda' yn flaenorol, yn dangos hyn. Derbyniodd y Ganolfan ganmoliaeth am:
- y cynnydd da a wnaeth hyfforddeion tuag at gyflawni safonau SAC
 - yr amrywiaeth eang o brofiadau dysgu heriol ac ysgogol a ddarparwyd
 - ansawdd da yr hyfforddiant ar y rhaglen gradd
 - llawer o diwtoriaid yn darparu model rôl da i hyfforddeion
40. Eto, beirniadwyd y Ganolfan oherwydd:
- nid oes sgiliau llythrennedd digon da gan leiafrif yr hyfforddeion
 - nid yw lleiafrif yr hyfforddeion yn datblygu eu sgiliau cynllunio a myfyrio yn ddigon da
 - mae ansawdd yr hyfforddiant yn amrywio ar draws rhaglenni
 - nid yw asesu bob amser yn nodi diffygion mewn sgiliau hyfforddeion
41. Mae'r beirniadaethau hyn yn awgrymu problemau o ran recriwtio, ansawdd a chysondeb. Mae'n eglur bod Estyn wedi codi'r gofynion o ran ansawdd a chysondeb yn eu harolygon HCA newydd ac mae hyn i'w groesawu. Mae'n hanfodol bod Estyn yn darparu barn wrthrychol ac allanol ar ansawdd yn seiliedig ar safonau rhyngwladol uchel. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn gwlad fach

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

fel Cymru, lle nad oes cystadleuaeth leol i ddarparwyr a allai o bosib eu gwthio i wella fel arall.

42. Dylid nodi bod barn athrawon newydd gymhwyso eu hunain yn fwy cadarnhaol. Cynhaliodd y CSCC arolygon ymhlith athrawon newydd gymhwyso a'r sawl a oedd yn dod i derfyn ymsefydlu yn 2011. Gwelodd y CSCC fod tua 88 y cant o hyfforddeion yn ystyried bod eu cwrs yn dda neu yn dda iawn a bod tua 90 y cant yn barnu fod eu rhaglen ymsefydlu yn dda neu yn dda iawn (CSCC, 2012). Cafwyd ymateb o tua 50 y cant i holiaduron yr arolwg. Mae canlyniadau Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol ar gyfer israddedigion yn eu blwyddyn olaf hefyd yn dda.
43. Mae ymateb mor gadarnhaol yn rhoi cysur i ddarparwyr HCA bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi ond mae'n gwrthdweud sylwadau lluo o sylwebyddion, gan gynnwys penaethiaid a mentoriaid ysgol y cysylltwyd â nhw ar gyfer yr adolygiad hwn. Er mwyn archwilio'r mater, holwyd 30 o ANC a 30 o fentoriaid ysgol mewn ymarfer bach a gomisiynwyd gan Old Bell 3, sef grŵp ymchwil masnachol yng Nghymru.
44. Cadarnhaodd casgliadau'r cyfweiliadau fod ANC yn gwerthfawrogi'r goruchwyliad a'r arweiniad y maent yn ei gael gan eu tiwtoriaid gorau. Mae'r casgliadau hefyd yn cryfhau yr anawsterau y bydd darparwyr HCA yn eu hwynebu wrth gydbwysio theori ac ymarfer. Yn bennaf, beirniadwyd elfennau o'r cwrs nad oedd yn uniongyrchol addas ar gyfer adnoddau ac arferion oedd yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth. Daeth y prif feirniadaethau pan ganfyddai'r ANC a'r mentoriaid ddulliau pedagogaidd o fynd ati, a rhai tiwtoriaid, a oedd wedi colli gafael ar flaenoriaethau ac arferion cyfredol ysgolion. Mae'r adroddiad ar gael oddi wrth yr ymchwilwyr yn www.oldbell3.co.uk.
45. Mae'n bwysig cydnabod y berthynas gref y mae mwyafrif darparwyr HCA yn ei sefydlu gyda mwyafrif yr hyfforddeion. Mae hyn yn holl bwysig i lwyddiant HCA, lle mae llawer o ymgeiswyr newydd i'r proffesiwn yn awyddus i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt, yn gyflym. Ond mae dadansoddiad gofalus o gryfderau a gwendidau ledled darpariaeth HCA yng Nghymru yn ofynnol os yw'r sector am newid perthnasoedd da yn baratoad athrawon o safon fyd-eang.
46. **Gan ddefnyddio'r fframwaith a gyflwynwyd yn y Bennod ddiwethaf, mae bellach yn bosib disgrifio cryfderau'r ddarpariaeth bresennol a meysydd ar gyfer gwelliant yn fwy manwl a nodi'r ffordd ymlaen.**

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Pennod 5: Casgliadau manwl ac argymhellion

47. Yn yr adran a ganlyn, crynhoir y bwch rhwng lle mae angen i HCA yng Nghymru fod a'r arfer presennol, dan y penawdau adrannol y manylir arnynt ym mharagraff 34.

Fframwaith rheoleiddio eglur

48. Tuedda systemau llwyddiannus fod â fframweithiau eglur sy'n manylu, *inter alia*, ar safonau athrawon wrth gychwyn yn y proffesiwn. Mewn gwahanol wledydd, deil gwahanol lefelau yn y system y cyfrifoldeb dros gadw'r safonau hyn. Ar y cyfan, mae hyn yn adlewyrchu hanes diwygio ym mhob achos ond mae gan y systemau mwy llwyddiannus fel ei gilydd lefel uchel o ddealltwriaeth am y rheolau a'r safonau sy'n rheoli'r system.
49. Yng Nghymru, mae'r fframwaith rheoleiddiol yn gadarn. Mae set eglur o safonau, rheolau achredu a gofynion HCA o ran cwricwlwm, mathau o raglenni, trefniadau rhaglenni a manylion fel hyd y cwrs a'r cyfnod mewn ysgolion. Mae'r rhain yn rhoi disgwyliadau eglur ac mae'r cydbwysedd rhwng gwybodaeth bynciol, gwybodaeth bedagogaid a sgiliau ystafell ddosbarth, er enghraifft, yn dda.
50. Gellir gwneud gwelliannau, yn enwedig o ran alinio safonau ar gyfer athrawon ar wahanol gamau yn eu gyrfa yn well, er mwyn gwneud y dilyniant yn fwy eglur. Edrychir ar y mater hwn ym mharagraffau 80-85. Yn ogystal, gyda sawl corff yn ymwneud yn agos ag arwain, cynghori, archwilio a chefnogi HCA – yr Adran Addysg a Sgiliau, Estyn, CACC a CCAUC – mae'n hynod bwysig eu bod yn cydweithredu'n agos ac yn cynnig cyfarwyddyd eglur. Edrychir ar y mater hwn ym mharagraffau 51-55.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

'Arweinyddiaeth sector' sy'n drefnus, â chysylltiadau da ac yn ymgynghorol

51. Mae systemau llwyddiannus yn neilltuol oherwydd bod HCA yn ganolbwynt eglur ac uniongyrchol i'r sawl sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ysgolion. Mae gwneuthurwyr polisi blaengar yn deall nodweddion a gofynion arbennig HCA. Pan ystyrir diwygio, ledled y gyfundrefn ysgolion, ymdrinnir â rôl a chyfraniad HCA. Bydd trafod ac ymgynghori, er mwyn sicrhau bod diwygiadau wedi'u alinio'n briodol a bod pawb yn cymryd rhan.
52. Yng Nghymru, nid felly y bu. Mae HCA wedi bod ar ymylon diwygio ysgolion ac ni chafodd y cyfraniad y gallai ei wneud i fentrau diwygio newydd ei ystyried yn ddigonol. Cynhelir cyfarfodydd bob tymor, yn cynnwys darparwyr, gwneuthurwyr polisi a rheoleiddwyr – a bydd ymgynghori ar bolisiau newydd – ond gallai Canolfannau HCA, a'u cyrff cynrychioladol, gael eu cynnwys yn natblygiad polisi ynghynt.
53. Er enghraifft, yn yr ymgyrch ddiweddar i wella llythrennedd a rhifedd trwy'r Fframweithiau Cenedlaethol, ni ddaethpwyd â darparwyr HCA at y bwrdd i drafod eu cynnwys yn llawn. Yn yr un modd, mae yna achosion lle cynigiwyd diwygiadau o fewn HCA heb ymgynghori digonol yn gynnar gyda'r sector am y trefniadau gorau posib. Felly, daeth darparwyr HCA i fod yn anghyfforddus gyda rhai diwygiadau ac, yn rhy aml, mae'r ymateb cyntaf wedi ymddangos yn negyddol.
54. Mae hyn yn awgrymu, yn fwy na dim, bod angen cryfhau arweinyddiaeth y sector, eto, nid yw Cymru yn ddigon mawr i gyfiawnhau sefydliad newydd sy'n canolbwyntio ar HCA. Yn bendant, mae angen gwelliannau i gryfhau dealltwriaeth HCA, ymgynghori a chynrychiolaeth yn Adran Addysg a Sgiliau Cymru. Bydd gwybodaeth dechnegol am y ffordd y mae HCA yn gweithio yn helpu diwygwyr i fireinio polisi a sicrhau mwy o ymrwymiad.
55. Bydd arweinyddiaeth well yn cludo syniadau i bartneriaid allweddol fel CCAUC, CACC a Chyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon (UCET) Cymru cyn gwneud penderfyniadau pwysig am fanylion gweithredu. Dylai diwygiadau newydd mewn ysgolion gynnwys darpariaeth yn naturiol ar gyfer cefnogi HCA yn ogystal â chefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol; fel rheol bydd y costau ychwanegol yn isel.

ARGYMHELLIAD 1

Bod yr Adran Addysg a Sgiliau yn penodi uwch gynghorwr gyda chyfrifoldeb

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

penodol dros HCA, a fydd yn chwarae rhan allweddol mewn darparu arweinyddiaeth o ran cyngor am bolisi a chodi safonau HCA gyda phob darparwr.

Darparwyr cryf (neu un darparwr cryf) sy'n cael eu harwain yn dda yn lleol

56. Sylfeini HCA da bob amser yw'r darparwyr. Yn y Ffindir, mae corff cryf datganoledig o arbenigedd mewn addysg athrawon sydd wedi datblygu dros lawer blwyddyn. Yn Singapôr, mae gan un ganolfan fonopoli o ran darpariaeth, ac mae'n gwneud ei waith gan roi sylw llym i fanylion.
57. Nid yw darpariaeth HCA yng Nghymru yn cyrraedd y meincnodau uchel hyn er ei bod yn eglur bod yna rai rheolwyr da a thiwtoriaid cryf sy'n haeddu buddsoddiad. Ar yr ochr gadarnhaol, mae darparwyr yn creu perthnasoedd cryf gyda'u hyfforddeion ac, wrth arolygu Canolfan y de-orllewin, gwelodd Estyn fod y posibilïadau o wella yn 'dda' gan fod gan y darparwr weledigaeth eglur ynghylch lle roeddent am fynd, roeddent yn deall eu meysydd gwan ac roeddent wedi rheoli newidiadau diweddar yn dda.
58. Cysondeb yw'r broblem fwyaf. Mae HCA yn weithgaredd cymhleth ac, i lwyddo, mae'n ofynnol i ddarparwr gyflwyno'n dda ar draws gwahanol bynciau, arbenigeddu a grwpiau oedran. Awgryma hyn y dylai tiwtoriaid fod yn destun trefniadau rheoli perfformiad effeithiol. Mae heriau ychwanegol oherwydd y gofyniad i drefnu hyfforddiant mewn ysgolion yn ogystal ag yn y sefydliadau lleol. Mae materion sydd angen gwelliannau o ran rheolaeth, a sicrhau ansawdd, er mwyn sicrhau bod mwy o gywirdeb a dibynadwyedd wrth roi rhaglenni ar waith yn y Canolfannau .
59. Byddai wedi bod yn well pe bai newidiadau strwythurol yn sgil adolygiad Furlong wedi'u trosi'n gyflymach, ym mhob Canolfan, yn dimau wedi'u rheoli'n gadarn â'r galluedd i gyflwyno'r newidiadau gofynnol yn gyflym. Petrusodd yr arweinyddiaeth ac roedd angen gormod o amser i ddatrys sawl mater. Dangosodd adnewyddu arolygiadau Estyn, gyda'r disgwyliadau uwch o ran rheolaeth a chydlynu ym mhob Canolfan a ddaeth yn ei sgil, mai araf iawn fu cynnydd.
60. Nid yw'n eglur bod y SAU a gyfranogodd yng Nghymru wedi darparu'r uwch arweinyddiaeth ofynnol. Mae ymgynghori gyda'r Is-gangellorion trwy Addysg Uwch Cymru (AUC) wedi dangos tystiolaeth bod uwch arweinwyr yn rhannu dealltwriaeth o'r angen i godi statws addysgu a phroffil HCA. Ond roedd eu

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

systemau sicrhau ansawdd yn dangos ar y cyfan nad oedd achos pryder difrifol, pan mai'r ffaith nad oedd disgwyliadau yn ddigon uchel oedd ar fai.

61. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r timau arwain uwch yn y SAU yn cymryd rôl mwy gweithredol wrth hybu cysondeb, cryfhau rheoli perfformiad ac adeiladu galluedd ymchwil. Mae angen i bob Canolfan ddatblygu yn endid dan reolaeth gadarn ynddi'i hun, a byddai'n synhwyrol pe bai'r tair Canolfan yn sefydlu dulliau o fynd ati sy'n debycach i'w gilydd. Maen nhw wedi gwneud peth cynnydd yn hyn o beth o ran asesu ymgeiswyr ond mae mwy yn bosib, er enghraifft wrth reoli perfformiad staff.
62. Mae CCAUC wedi dangos ei fod yn barod i ddiogelu rôl ac ansawdd HCA mewn addysg uwch yng Nghymru. Dylai bellach geisio cydweithio'n nes gydag Estyn, yn gyntaf wrth roi adborth i SAU a Chanolfannau ynghylch eu harolygon, fel bod yr angen am welliannau yn cael ei ddeall yn eglur. Ac, yn ail, dylai ystyried tystiolaeth Estyn, ansawdd y cynlluniau gweithredu a gynhyrchir, a'r brys a galluedd y timau rheoli ynghlwm, wrth benderfynu p'un a yw gwelliannau HCA yn debygol dan drefniadau presennol pob Canolfan.
63. Mae yna gwestiwn yma, ynghylch p'un a allai fod yn well achosi darparwyr HCA i gystadlu mwy am niferoedd hyfforddeion, fel bod efallai mwy o gymhelliad i wella'n sydyn. O ystyried maint Cymru, amrywiaeth y rhanbarthau a chyfeiriad diwygiadau Furlong, byddai hyn yn anodd i'w roi ar waith heb gael effaith ar bynciau recriwtio blaenoriaethol a chyflenwad athrawon lleol. Oherwydd hyn, mae argymhellion yr adolygiad hwn yn dangos y ffordd ar gydweithredu wedi'i dargedu yn hytrach na mwy o gystadleuaeth.
64. Ond mae terfynau i gydweithredu a, phe bai darparwyr HCA yn methu arolygon neu yn parhau i wella ar yr un gyfradd â nawr, yna dylai'r Adran Addysg a Sgiliau a CCAUC gydweithio'n agos i ddod o hyd i ddatrysiadau HCA amgen. Ansawdd ddylai bob amser fod yn ysgogwr allweddol y sector. Dylai darparwyr HCA ddeall bod disgwyl iddynt gydweithredu wrth roi arfer gorau ar waith a phe baent yn methu, yn unigol neu ar y cyd, yna gallai nifer sylweddol o hyfforddeion gael eu symud at ddarparwyr mwy parod a galluog, a dyna fydd yn digwydd..

ARGYMHELLIAD 2

Bod Estyn a CCAUC yn cydweithredu yn agosach wrth ddilyn arolygiad, er mwyn sicrhau ymrwymiad cryfach gan ddarparwyr HCA a'r SAU cydweithredol i newidiadau a fydd yn cryfhau arweinyddiaeth lleol ac ansawdd pob Canolfan HCA yn gyflym.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

ARGYMHELLIAD 3

Bod yr Adran Addysg a Sgiliau a CCAUC yn trafod cynlluniau wrth gefn ar gyfer ailddyrannu niferoedd hyfforddeion mewn achos o danberfformio parhaus, naill ai mewn Canolfannau unigol neu gan y sector cyfan.

Hyfforddiant cryf a modelau pedagogaidd sy'n treiddio i bob rhaglen

65. Mae'n drawiadol mewn systemau llwyddiannus bod yno ddeialog parhaus – hyd yn oed dadl – am y dull o hyfforddi maent yn ei fabwysiadu, ac mae fel rheol raglen o werthuso ac ymchwil sydd bob amser yn ceisio cwestiynu a gwella'r dull hwnnw. Er enghraifft, mae Singapôr yn nodweddiadol o ran cyfathrebu a diweddarau ei modelau hyfforddi (NIE, 2009).
66. Yn yr un modd, mae darpariaeth ar ei gorau pan fo ysgolion a'u darparwyr HCA lleol yn rhannu model pedagogaidd – neu, i'w symleiddio, dull o fynd ati i addysgu – sy'n briodol i addysgu, er enghraifft, y blynyddoedd cynnar, plant hŷn ysgol gynradd, neu bynciau fel gwyddoniaeth a hanes. Wrth adeiladu'r modelau cyfrannol hyn, mae ysgolion a darparwyr yn cyfuno i sicrhau bod hyfforddeion yn cwrdd â disgwyliadau cyffredin ac yn derbyn cefnogaeth gyflenwol.
67. Nid oedd digon o dystiolaeth bod hyn wedi'i flaenoriaethu yn y Canolfannau HCA. Nid oedd deialog amlwg – na beirniadaeth – o fodelau hyfforddi. Er bod achosion lle bu darparwyr yn cydweithio â'u ysgolion partner mewn un maes – fel y Cyfnod Sylfaen – i greu disgwyliadau cyffredin, ni chynhaliwyd y gwaith hwn drwy bob darpariaeth.
68. Yn y cyd-destun presennol, sef diwygiadau ystafell ddosbarth yng Nghymru sy'n cael eu cyflwyno yn gyflymach, mae hyn yn wendid sylweddol. Os yw ysgolion yn mabwysiadu fframweithiau newydd, er enghraifft mewn dysgu llythrennedd a rhifedd, mae'n bwysig – er mwyn hygyrdd HCA yn ogystal â'r effaith ar hyfforddeion – bod y sector HCA yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r strategaethau a dulliau o fynd ati mewn ystafelloedd dosbarth.
69. Dyma faes sydd angen i'r darparwyr eu hunain fynd i'r afael ag ef, gellir ei gyfoethogi trwy UCET Cymru, a gall yr Adran Addysg a Sgiliau helpu trwy hysbysu darparwyr am fentrau ar ddod, fydd yn canolbwyntio ar yr ystafell ddosbarth.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

ARGYMHELLIAD 4

Bod darparwyr HCA yn adolygu eu modelau hyfforddi a'u modelau pedagogaid er mwyn sicrhau bod hyfforddeion yn derbyn arweiniad eglur a chyson ar sut y dylent drefnu addysgu a dysgu yn eu pwnc (pynciau) a'u cyfnod(au).

Dull o fynd ati seiliedig ar 'theori ymarferol' yn cynnwys lefelau uchel o ymarfer mewn ysgol

70. Mae'r symudiad modern at fwy o baratoi yn yr ysgol mewn HCA yn fyd eang. Mae'r holl fodelau HCA mwyaf datblygedig yn integreiddio theori addysgol, elfennau pynciol a phedagogaid gydag ymarfer ysgol.
71. Yng Nghymru, mae hyn yn gryfder nodedig. Bydd darparwyr yn cyflwyno hyfforddeion i brofiad ysgol yn gyflym ac mae hyn yn rhywbeth y mae darpar athrawon yn ei groesawu. Yn yr ysgolion y mae'r hyfforddeion yn gwneud synnwyr o'r holl y maent yn ei ddysgu. Dyma'r darn o'r cwrs sydd ganddynt fel rheol y mwyaf o feddwl ohono.
72. Yn ddiweddar, cymerwyd camau i gynyddu'r gofynion am weithgaredd yn yr ysgol, sy'n rhywbeth i'w groesawu. Mae angen cydbwysedd gofalus i sicrhau fod rhaglenni yn gyfoethog o ran profiad yn yr ysgol a'r ystafell ddosbarth, ond mae gofyn hefyd i hyfforddeion gryfhau eu gwybodaeth bynciol a threiddio ymhellach i theori addysgol.
73. Y risg ychwanegol wrth wneud hyd yn oed mwy o'r hyfforddiant mewn ysgolion yw fod ansawdd ysgolion yn parhau yn anwastad. Mae cyflwyno llwybrau hyblyg a seiliedig ar gyflogaeth i'w groesawu, gan y dylai helpu ysgogi cryfderau mewn rheoli HCA mewn ysgolion. Mae'r ffaith fod y Brifysgol Agored a Teach First bellach yn darparu HCA yng Nghymru o fudd, oherwydd bu'n rhaid i'r ddau weithio'n arbennig o galed i sicrhau bod yr ochr ysgol o'r bartneriaeth yn gweithio yn eu modelau. Cafodd y ddau eu canmol wedi arolygon Ofsted yn Lloegr.
74. Nid oes digon o alluedd mewn ysgolion, ar hyn o bryd, i gyflawni rôl sylweddol fwy llawn mewn HCA, fel y rhagwelwyd yn Lloegr, ond yn bendant mae mwy o sgôp i Gymru fynd ati i gryfhau'r rhan y bydd ysgolion yn ei chwarae mewn HCA, oherwydd bydd hyn yn cynhyrchu mwy o alluedd. Mae'r mentrau a awgrymwyd ac a gymerwyd mewn gwledydd eraill i sefydlu 'ysgolion addysgu gyda chanolbwynt' neu 'ysgolion hyfforddi', yn rhoi awgrymiadau o ran

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

ffyrdd i ddatblygu cryfderau ar yr ochr ysgolion.

ARGYMHELLIAD 5

Sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o Ysgolion Hyfforddi – wedi’u seilio ar argymhellion darparwyr ac yn cychwyn gyda nifer bach o ysgolion llwyr eu hymroddiad – er mwyn rhoi cydnabyddiaeth i’r rheiny sydd eisoes yn chwarae rhan fawr mewn HCA, ac i greu rhwydwaith ar gyfer gwneuthurwyr polisi a darparwyr i ymgynghori â nhw, a chydweithredu gyda nhw, wrth wella ymarferion yn yr ysgol.

Cryfderau pwnc ac arbenigol ymhlith y tiwtoriaid ac yn y gyfadran drwyddi draw

75. Mae gwybodaeth bynciol a’r hyn a elwir yn ‘wybodaeth gynnwys-bedagogaid’ (sef gwybod am yr anawsterau y bydd myfyrwyr yn eu cael wrth ddysgu a gwybod sut i addysgu o ganlyniad i hynny) yn gydrannau hanfodol yn y rhaglenni HCA gorau.
76. Mae hyn yn nodwedd weddol gref yn nyluniad darpariaeth HCA yng Nghymru, oherwydd bod y gofynion HCA yn gytbwys, gyda phwyslais pynciol priodol. Eto, dywed darparwyr bod anawsterau wrth recriwtio tiwtoriaid mewn meysydd pynciol y rhoddir blaenoriaeth iddynt.
77. Nid yw HCA yn denu’r addysgwyr gorau oll yn y system yn gyson – mae’r mwyafrif yn edrych yn gyntaf ar gyflogaeth mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Felly mae prinder.
78. Gyda’r gwahaniaethau mewn cyflogau, nid oes ateb hawdd i’r broblem hon a bydd llwyddiant yn dibynnu ar:
 - Wella statws addysgu athrawon a darpariaeth HCA, i greu gyrfa ddeniadol sy’n rhoi boddhad ei hunan ac sy’n debygol o arwain at ddyrchafiad gyrfaol pellach.
 - Gwellu perfformio a rheoli mewn HCA, fel bod cryfderau a gwendidau staffio’n cael eu dynodi a rhoi datblygiad proffesiynol ar waith i godi perfformiad lle bo’r angen.
 - Ystyried penodiadau ar y cyd rhwng darparwyr HCA ac ysgolion, a rhwng darparwyr HCA ac awdurdodau lleol.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

79. Mewn meysydd pynciol y rhoddir blaenoriaeth iddynt, byddai o fudd arbennig i ddarparwyr HCA edrych ar gysylltiadau mwy clos gydag awdurdodau lleol, ac i greu cynllun peilot o ran penodiadau ar y cyd gydag awdurdodau lleol mewn swyddi anodd eu llenwi.

ARGYMHELLIAD 6

Bod darparwyr HCA yn ystyried mynd ati i benodi ar y cyd mewn pynciau â blaenoriaeth a mabwysiadu'r un dulliau o fynd ati i reoli perfformiad ar gyfer eu holl staff, sy'n gosod safonau uchel ac yn sicrhau bod pob tiwtor yn cael ei arfarnu yn flynyddol o ran eu cryfderau a'u meysydd lle mae angen gwella. Dylid mynd ati i gefnogi staff o ran eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Fframwaith eglur ar gyfer 'datblygiad proffesiynol cynnar' sy'n rhedeg trwy HCA, ymsefydlu a blynyddoedd cynnar gyrfa athro

80. Mae systemau llwyddiannus yn ceisio alinio darpariaeth HCA gyda'r ymsefydlu a'r datblygiad proffesiynol a ddylai gludo athro trwy flynyddoedd cynnar ei yrfa.
81. Mewn rhai gwledydd, ysgrifennir safonau mynediad at HCA, ar gyfer symud ymlaen yn llwyddiannus at SAC, ar gyfer gorffen y flwyddyn ymsefydlu ac ar gyfer symud ymlaen at statws athro profiadol neu athro uwch. Yng Nghymru, gosodir y cydrannau mewn lle i ddarparu'r union fframwaith blaengar.
82. Mae gwerth y dull hwn o fynd ati yn uwch pan, fel yng Nghymru, mae yna bwysau sylweddol ar yr amser sydd ar gael i hyfforddiant ar raglenni blwyddyn. Gall fframwaith da yn cwmpasu blynyddoedd cynnar gyrfa mewn addysgu osod disgwyliadau blaengar mewn meysydd fel anghenion arbennig a rheoli ymddygiad – mae pawb, yn enwedig yr undebau llafur, yn cydnabod bod y rhain yn anodd mynd i'r afael â nhw mewn HCA yn unig.
83. Mae cyflwyno'r Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MEP) newydd o fudd a gallai gwaith pellach ar set gynhwysol o safonau gyrfa helpu i arwain datblygiad cyflenwol y MEP ar y cyd â'r rhaglenni Meistr eraill y mae darparwyr HCA yn eu cynnig.
84. Bydd adolygiad arfaethedig o Safonau Athrawon wrth eu Gwaith fydd yn rhoi cyfle cynnar i alinio safonau'n well a gwella eglurder.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

85. Rhaid cymryd gofal wrth ddrafftio safonau oherwydd, yn ymarferol, fe'u defnyddir ar gyfer dibenion eithaf gwahanol, er enghraifft, fel gwiriad sydyn o gynnydd trwy ymsefydliad neu fel meini prawf hynod fanwl i arwain rheoli perfformiad yn ddiweddarach mewn gyrfa athro. Ond bydd un fframwaith yn unig yn helpu i roi trosolwg ac eglurdeb i brif nodweddion cynnydd athro. Yna, gallai hyn lywio'r gwaith o ddrafftio'r safonau a'r rheolau mwy manwl sydd eu hangen ar gyfer dibenion asesu gwahanol.

ARGYMHELLIAD 7

Bod y safonau ar gyfer SAC, ymsefydlu a gwneud cynnydd yn y dair i bum mlynedd cyntaf o addysgu yn cael eu drafftio yn yr adolygiad arfaethedig o Safonau Athrawon wrth eu Gwaith. Dylid eu drafftio a'u halinio fel eu bod yn rhoi llwybr eglur i arwain dilyniant gyrfa gynnar athrawon.

Ymchwil wedi'i alinio i'r modelau HCA ac ymarfer, gan helpu i ffurfio ac ailffurfio dulliau o fynd ati dros amser

86. Mae ymchwil yn chwarae rhan bwysig mewn systemau HCA llwyddiannus. Cyflwynir athrawon i ddulliau ymchwil yn Singapôr, ac mae'r darparwr unigol, NIE, yn ganolfan ymchwil addysgol mawr ei bri yn ei haeddiant ei hun. Yn y Ffindir, bydd hyfforddeion yn cymryd rôl weithredol iawn mewn ymchwil ac yn cael cyfarwyddyd ar sut i gynnal ymholiadau'n ymwneud â dysgu, fel eu bod yn mynd â'r arbenigedd hwn i'w gyrfa addysgu.
87. Yng Nghymru, nid yw HCA wedi'i gysylltu'n gryf ag ymchwil ac araf fu'r cynnydd i newid hyn. Mae rhesymau hanesyddol a strwythurol am y toriad rhwng HCA ac ymchwil, ac mae'n bosib bod pethau wedi gwaethygu ers Adolygiad Furlong yn 2006. Dechreuau'r broblem hanesyddol gyda rôl gymharol wan i ymchwil wrth arwain arferion addysgol. Gwaethygyd hyn gan y ffaith nad oes gan y ganolfan ymchwil addysgol orau yng Nghymru – ym Mhrifysgol Caerdydd – gysylltiad uniongyrchol â HCA. Y broblem strwythurol yw bod polisi Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, sef cyngor ariannu'r DU, yn cyfeirio arian ymchwil o ansawdd tuag at dimau ymchwil, a gweithgareddau, nad ydynt yn siwtio'r amgylchedd hyfforddi proffesiynol a hyfforddi mewn ysgolion y mae'r Canolfannau HCA yn ceisio'u rheoli. O ganlyniad, gydag ambell eithriad lle mae gan unigolion mewn swydd ddiddordebau ymchwil a chysylltiadau eu hunain, nid oes gan diwtoriaid na hyfforddeion gysylltiad cryf ag ymchwil sy'n dylanwadu ar eu gwaith yn gonfensiynol.
88. Ar sail y cefndir hwn, nid oes ateb hawdd a dilyn dau lwybr fyddai orau. Y cyntaf

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Yw cefnogi Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) sydd newydd ei sefydlu, oherwydd fe fydd yn cyflwyno disgyblaethau a dulliau ymchwil modern y gwyddorau cymdeithasol i fwy o staff HCA. Mae menter Addysg WISERD wedi'i llunio i gynyddu galluedd a galluedd ymchwil yn y sector. Gall pob Canolfan HCA gael budd o sicrhau bod staff dethol yn cymryd cyfleoedd i gyfranogi mewn astudiaethau meintiol a hydredol.

89. Yr ail yw cryfhau ymchwil wedi'i ganolbwyntio ar yr ystafell ddosbarth a dysgu fel gweithgaredd mewn rhaglenni HCA. Bydd yn werthfawr i ddarparwyr HCA edrych ar y ffordd mae ymchwil yn cael ei ymgorffori mewn HCA yn y Ffindir (gweler, er enghraifft, Sahlberg 2011) yn ogystal ag ystyried dulliau systemataidd o fynd ati efo 'astudiaeth gwers', sef dull ymchwil-ymarferwr o fynd ati sy'n cael ei hybu yn Siapan (gweler, er enghraifft, Rock a Wilson, 2005 neu Burghes a Robinson, 2009).

90. Mae'n hanfodol bod y timau arweinyddiaeth ym mhob Canolfan HCA, ac yn y SAU cydweithredol, yn cymryd yr awenau wrth adolygu eu hymwneud ag ymchwil HCA a gwneud cynlluniau eglur i ailadeiladu cysylltiadau gweithredol rhwng addysgu ac ymchwil. Nid yw'r sefyllfa bresennol, lle bo gan ymchwil statws isel mewn amgylchedd hyfforddi proffesiynol, yn gynaliadwy. Dylai fod disgygliad bod rheolwyr, tiwtoriaid a hyfforddeion yn brysur o ran ymchwil a bod ymholiad gwyddonol ac ymarferol yn dylanwadu arnynt.

ARGYMHELLIAD 8

Bod darparwyr HCA yn cymryd camau brys i gryfhau ymwneud tiwtoriaid a hyfforddeion mewn ymchwil fel bod addysgu a hyfforddiant athrawon dan ddylanwad cryf dulliau ymholi gwyddonol ymarferol.

Proffesiwn statws uchel sy'n denu'r graddedigion gorau

91. Nod holl sectorau HCA yw denu ymgeiswyr o'r radd flaenaf i broffesiwn statws uchel. Yng Nghymru, mae darpariaeth HCA yn denu digon o ymgeiswyr i lenwi mwyafrif y rhaglenni ac mae anogaeth ariannol wedi'i thargedu yn chwarae rhan bwysig wrth helpu i lenwi cyrsiau y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Y brif her i Gymru yw denu graddedigion o'r radd flaenaf yn barhaus.

92. Mae cymhellion hyfforddi wedi rhoi'r gwobrau gorau i'r sawl sy'n mynd i mewn i gyrsiau ôl-radd gyda gradd dda yn y pynciau y rhoddir blaenoriaeth o ran recriwtio iddynt (mathemateg, ffiseg, cemeg, TGCh, Cymraeg ac ieithoedd

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

tramor modern). Bydd hyfforddeion HCA sy'n gwneud cyrsiau uwchradd eraill ac astudiaethau cynradd gyda gradd dosbarth cyntaf hefyd yn cael cymhelliad ariannol.

93. Gofynnwyd i'r adolygiad wneud sylw ar briodoldeb cymhellion. Ar hyn o bryd mae cydbwysedd synhwyrol yng Nghymru, er bod heriau sylweddol yn codi o ganlyniad i'r gwahanol gyfundrefnau ariannol i fyfyrwyr sy'n bodoli yng Nghymru a Lloegr. Mewn amgylchiadau penodol, gall myfyriwr o Gymru sy'n ymuno â sefydliad hyfforddi athrawon yn Lloegr elwa o gael well cefnogaeth ariannol o ran ffioedd gan Gymru a chymhelliad ariannol uwch gan Loegr.
94. Tra bydd y gwahanol gyfundrefnau ariannol hyn yn bodoli, fe fydd yna anghysondebau fel hyn. Mae angen monitro eu heffaith ar recriwtio ac, yn hyn o beth, mae'n fantais bod Cymru'n gallu cadw golwg ar y newidiadau yn Lloegr ac addasu ei chymhellion ei hun bob blwyddyn.
95. Mae cymhellion ychwanegol ar gael i'r sawl sy'n hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg, dan y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cynllun yn bwysig o ran cynyddu nifer yr athrawon sydd ar gael i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gystadleuaeth am raddedigion dawnus yn y rhan hon o'r farchnad yn creu achos cryf dros barhau â'r cymhellion hyn.
96. Mae cyflwyno Teach First Cymru o bosib yn fantais wrth ail-leoli addysgu fel gyrfa o ddewis i'r graddedigion gorau. Fel Teach First, mae gan y fenter hanes o lwyddo yn Lloegr wrth ddod â mwy o raddedigion o'r prifysgolion gorau i mewn i addysgu, yn enwedig mewn pynciau â blaenoriaeth. Mae'r fenter yn targedu'n benodol y sawl sy'n cyflawni'n uchel, sy'n cael cynnig profiadau ehangach sy'n eu paratoi ar gyfer rolau arwain, yn gyntaf i weithio mewn ysgolion gyda phoblogaethau dan anfantais ac yn ddiweddarach, pe bai'n ddymuniad ganddynt, i gael mynediad at swydd uchel ei statws y tu hwnt i addysgu. Bydd y rhaglen yn recriwtio hyd at 40 o hyfforddeion mewn ysgolion uwchradd yn yr hydref (2013/14) a dylid gwneud pob ymdrech i roi cyhoeddusrwydd i'w llwyddiant wrth ddenu ymgeiswyr newydd at addysgu.
97. Mae'r cymhellion a mabwysladau mentrau newydd yn fesurau hanfodol sydd eu hangen i hybu addysgu fel gyrfa i'r graddedigion gorau oll yng Nghymru. Dylid cryfhau marchnata a negeseua, fel nad oes gan ddarpar ymgeiswyr unrhyw amheuaeth nad yw addysgu yn ceisio denu y bobl orau oll ym mhob cenhedlaeth.
98. Mewn rhai gwledydd, caiff y negeseuon hyn eu hybu mewn ymgyrchoedd wedi'u

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

targeddu a'u llunio i ddangos addysgu ar ei orau. Yng Nghymru, dylid cychwyn y marchnata gyda Llywodraeth Cymru, a Gweinidogion, yn defnyddio'u cysylltiadau eu hunain â'r cyfryngau i gyfleu'r negeseuon cywir.

99. Mae angen cyfleu'r neges nad chwilio am ymgeiswyr newydd yn unig y mae addysgu – mae'n chwilio am y rhai gorau oll. Fel gyrfa, gall gynnig cyfleoedd da i ennill sgiliau gwerthfawr yn ogystal â bod yn llwybr i swyddi cyfrifol, a rolau o bwys yn y gymuned, gyda gwobrau da. Yn y cyd-destun hwn, byddai o fantais bellach pe bai ymgeiswyr cryf yn gweld bod cymhellion, nid yn unig yn y pecynnau ariannol uniongyrchol ond hefyd trwy gyfleoedd i roi eu gyrfa ar 'llwybr cyflym' i swyddi mwy cyfrifol. Mae mesurau o'r fath yn ran annatod o wneud addysgu yn yrfa fodern a chystadleuol mewn gwledydd eraill.

ARGYMHELLIAD 9

Bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i hybu addysgu fel dewis gyrfa i'r graddedigion gorau oll a'r sawl sydd am newid gyrfa, gan sicrhau bod y proffesiwn yn parhau i adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yng Nghymru, ac yn cymryd camau lle bynnag y bo'n bosib i wella llwybr gyrfa i'r ymgeiswyr gorau.

ARGYMHELLIAD 10

Bod cymhellion addysgu athrawon yn cael eu cadw fel mesur hyblyg y gellir ei addasu bob blwyddyn i annog yr ymgeiswyr gorau mewn meysydd penodol lle mae angen.

Ysgolion yn gweithio mewn partneriaethau tymor hir gyda darparwyr addysg uwch, gan ddefnyddio'r un modelau pedagogaid

100. Mae systemau HCA llwyddiannus yn sicrhau bod ysgolion yn gweithio'n agos iawn gyda darparwyr addysg uwch, fel bod hyfforddeion yn dysgu addysgu mewn amgylchedd lle mae theori ac ymarfer wedi'u hintegreiddio'n dda, a lle mae athrawon newydd yn derbyn negeseuon cyson ac yn cael cefnogaeth gyson.
101. Yng Nghymru, fel mewn sawl gwlad lle mae HCA wedi'i ddatganoli i ddarparwyr yn gwasanaethu gwahanol ranbarthau, mae ansawdd partneriaethau ysgol yn effeithio'n gryf ar lwyddiant HCA. Mae angen rheoli partneriaethau o'r fath yn ofalus, fel eu bod i gyd yn cynnal eu cyfrifoldebau ac fel bod disgwyliadau hyfforddi yn eglur. Mae argymhelliad 5 yn pwyntio at sefydlu rhwydwaith newydd o Ysgolion Hyfforddi yng Nghymru a allai helpu i

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

wella dealltwriaeth am rolau, cyfrifoldebau, ansawdd a chysondeb.

102. Yn amlwg, byddai'n well pe bai darparwyr yn gallu dibynnu ar berthynas barhaus gyda'r ysgolion y maen nhw yn eu gwerthfawrogi. Byddai hyn yn creu cyfle i'r darparwr HCA fuddsoddi mewn helpu i hyfforddi mentoriaid, ymgorffori arferion asesu a gwella arferion yn yr ystafell ddosbarth.
103. Mae darparwyr yn mynegi pryder bod rhai ysgolion yn mynd i mewn ac allan o'r bartneriaeth o flwyddyn i flwyddyn. Ambell dro, roeddent yn teimlo mai pryder yr ysgol am eu harolygiad eu hunain oedd yn gyfrifol am hyn. Waeth beth fo achos torri'r berthynas, dylid gwneud pob ymdrech i'w osgoi. Byddai'n fuddiol pe bai'r Adran Addysg a Sgiliau yn arwain wrth annog ysgolion i gadw partneriaethau parhaus gyda darparwyr HCA a helpu i wrthsefyll unrhyw argraff y gallai peidio â chymryd hyfforddeion fod o fudd i ysgol yn y tymor byr.

ARGYMHELLIAD 11

Bod Llywodraeth Cymru yn cyfleu i ysgolion y neges syml a phlaen bod ymwneud parhaus mewn HCA i'w ddisgwyl ym mhob ysgol dda a phob ysgol sy'n anelu at fod yn dda.

Diwylliant cryf, ac arfer, o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn ysgolion

104. Nid HCA yw unig ran datblygiad proffesiynol. Yn gyffredinol, bydd ysgolion sydd â thraddodiadau ac arferion DPP cryf yn ei chael yn haws i gynnwys hyfforddeion a chefnogi eu dysgu a'u hasesu proffesiynol.
105. Yng Nghymru, mae'n anodd cael hyd i farn eglur am ansawdd cyffredinol darpariaeth HCA mewn ysgolion. Yn adroddiadau Estyn a'u Hadroddiad Blynyddol, prin yw'r sylwadau uniongyrchol am DPP, ond o dan 'arweinyddiaeth a rheolaeth', mae PAEM Cymru wedi mynegi bod "llawer o ysgolion" yn sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer DPP athrawon, yn seiliedig ar arfarnu eu cryfderau a'u gwendidau yn yr ystafell ddosbarth (PAEM Cymru, 2012). Byddai o fudd cael mwy o dystiolaeth fanwl oherwydd mae astudiaethau rhyngwladol yn awgrymu tuedd i DPP amrywio'n fawr o ran ansawdd a chyfranogi, hyd yn oed mewn gwledydd fel y Ffindir (gweler, er enghraifft, Sahlberg 2010).
106. Mewn ysgolion, yn aml gwneir ymdrechion i flaenoriaethu DPP sy'n cefnogi cynlluniau gweithredu a chynlluniau gwella ysgol, ond fel rheol, rhoddir llai o

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

bwyslais ar gefnogi athrawon gyda'u cynlluniau DPP unigol eu hunain. Nid yw systemau arfarnu athrawon bob amser yn arwain at ddynodi anghenion hyfforddi unigol a gwerthuso'r ffyrdd yr eir i'r afael â'r rhain.

107. Mae yna gyfle i Gymru arwain yn rhyngwladol o ran addysgu athrawon a phwysleisio pwysigrwydd cryfhau systemau proffesiynol ar gyfer rheoli a datblygu ansawdd athrawon. Byddai'n fuddiol pe bai'r Adran Addysg a Sgiliau yn cydweithio'n glos ag Estyn a CACC i eglurhau disgwyliadau yn y maes hwn. Pe bai Estyn, yn arbennig, yn gallu dangos i ysgolion pa mor bwysig y mae'n ystyried systemau sy'n gwella gwybodaeth, sgiliau ac ansawdd athrawon yn uniongyrchol, fe fyddai'n helpu atgyfnerthu pwysigrwydd canolbwyntio ar ansawdd athrawon fel y ffactor pwysicaf oll sydd o dan reolaeth ysgol.

ARGYMHELLIAD 12

Bod Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r neges i ysgolion ei bod yn disgwyl iddynt fod ag arferion a systemau datblygu proffesiynol sy'n achosi athrawon i fod yn weithredol ac yn effeithiol wrth ddatblygu eu sgiliau, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bod Estyn yn archwilio'n fwyfwy manwl mewn arolygon ysgolion sut mae ysgolion yn cymryd camau uniongyrchol i wella ansawdd a sgiliau athrawon.

Atebolrwydd i holl ddarparwyr HCA, gyda'i gilydd ac yn unigol

108. Mewn systemau HCA da, gelwir darparwyr i gyfrif am eu hansawdd. Yng Nghymru, mae Estyn yn rhoi mesur da o atebolrwydd i'r sector, trwy arolygon sefydliadol. Gwneir arolwg annibynnol o ddarpariaeth ac mae barn wrthrychol yn cael ei chyhoeddi mewn adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd.
109. Mae lle i wella, er hynny. Roedd bwllch cyn ailddechrau arolygon sefydliadol o ddarparwyr HCA wedi Adolygiad Furlong a dim ond yn ddiweddar y daeth i'r amlwg mai araf fu cynnydd dan y Canolfannau newydd.
110. Yn yr un modd, dim ond os oes camau dilynol effeithiol y bydd atebolrwydd yn effeithiol. Byddai arolygon mwy rheolaidd o HCA yn cryfhau'r system yng Nghymru, a hefyd pe bai dilyniant cyflymach a phe bai Cynlluniau Gweithredol yn ofynnol ar yr un amserlen ag sydd yn yr ysgolion. O ran atebolrwydd, mae'n debygol y byddai arolygon sefydliadol llawn yn cael mwy o effaith nag arolygon thematig.
111. Yn ogystal, fel y dangoswyd ym mharagraff 62, byddai atebolrwydd yn gwella

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

pe bai Estyn a CCAUC yn cydweithredu wrth fwydo deilliannau arolygon yn ôl i ddarparwyr ac wrth wneud sylwadau ar eu cynlluniau gweithredu.

ARGYMHELLIAD 13

Bod cylch o arolygon HCA rheolaidd yn cael ei gynnal a chyda disgwyliadau uwch o ran cyhoeddi cynlluniau gweithredu a chyflwyno mesurau i wella gwendid.

Data da ar gael sy'n helpu darparwyr werthuso perfformiad ac olrhain eu cynnydd eu hunain dros amser

112. Mae argaeledd data sy'n helpu i gadw golwg ar berfformiad ac egluro materion yn nodwedd bellach o'r mwyafrif o systemau ysgol da. Mae data yn helpu i wneud cryfderau a gwendidau yn fwy amlwg. Mae data yn cynorthwyo atebolrwydd.
113. Yng Nghymru, mae darparwyr HCA yn dechrau cynhyrchu mwy o ddata fydd yn caniatáu iddynt (a) werthuso gwahanol ddulliau a llwybrau hyfforddi, (b) cadw golwg ar gynnydd gwahanol fyfyrwyr, a (c) archwilio cyfraniad tiwtoriaid ac ysgolion penodol.
114. Bydd yn werthfawr os yw'r holl Ganolfannau HCA yn rhannu ac yn meincnodi eu data, fel bod meysydd o berfformiad uchel yn cael eu cydnabod ac arferion gorau'n cael eu hybu i eraill gael eu defnyddio.

ARGYMHELLIAD 14

Bod darparwyr HCA yn cydweithredu trwy UCET Cymru a chyda rhanddeiliaid allweddol eraill i nodi'r data perfformiad allweddol y gallant eu rhannu, er mwyn darparu meincnodau Cymru-gyfan sy'n helpu i olrhain cynnydd hyfforddeion a dangos cryfderau a gwendidau cymharol yn narpariaeth ysgolion a Chanolfannau.

Cyfeiriadu diwyro i wella holl raglenni ac arfer HCA yn barhaus

115. Mae'r systemau HCA mwyaf llwyddiannus yn uchelgeisiol iawn. Mae'n arwyddocaol bod gwledydd sy'n perfformio'n uchel mewn astudiaethau addysgol cymharol yn aml wedi dewis gwneud gwelliannau a chynnal mentrau dros gyfnod sylweddol o amser. Maent wedi ceisio gwella'n gyflym, wrth gwrs, ond maent hefyd wedi ceisio sefydlu arferion – a dulliau o gydweithredu – sy'n cynyddu eu galluedd tymor hir.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

116. Mae llawer o'r sawl sy'n gweithio mewn darpariaethau HCA yng Nghymru yn uchelgeisiol o ran gwella ond nid yw'r Canolfannau HCA a'r SAU sy'n eu cefnogi wedi pwysu am ddiwygio'n ddigon cyflym o ran arwain a rheoli. Byddai o fudd i statws a phroffil y sector pe bai'r Canolfannau HCA a SAU yn rhoi arwydd clir eu bod am wneud gwell cynnydd yn unigol a chyda'i gilydd.

ARGYMHELLIAD 15

Bod Canolfannau HCA yn rhannu eu cynlluniau gwella ac yn cytuno ar fesurau a fydd, ar y cyd, yn ogystal ag yn unigol, yn eu helpu i osod disgwyliadau uwch ar gyfer cynnydd darpariaeth HCA yng Nghymru tuag at fwy o gysondeb a gwell ansawdd.

Pennod 7: Casgliadau

117. Mae disgwyliadau wedi codi yng Nghymru ac mae mesurau diwygio sylweddol bellach yn eu lle, wedi'u llunio i godi perfformiad ysgolion a chyraeddiadau myfyrwyr. Disgwylir y bydd darpariaeth HCA yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r diwygiadau hyn. Gall ansawdd HCA helpu i sicrhau bod athrawon yn mynd i mewn i'r proffesiwn gyda'r sgiliau, yr agweddau a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn gwneud cyfraniad parhaus a chynyddol at effeithiolrwydd ysgolion dros amser.
118. Mae Canolfannau HCA yng Nghymru wedi adeiladu perthnasoedd da gyda hyfforddeion ond mae angen gwella ansawdd a chysondeb os yw Cymru am fod â sector HCA o safon fyd-eang. Erys y cyfrifoldeb allweddol gyda'r darparwyr ond yn bendant, fe fydd ymgynghori'n drwyadl gyda'r sector a sicrhau ei fod wedi ymrwymo'n llwyr i fesurau diwygio o fudd.
119. Yn draddodiadol, nid yw darpariaeth HCA yng Nghymru wedi chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi gwelliannau mewn ystafelloedd dosbarth ac ysgolion yn uniongyrchol. I raddau helaeth, mae darparwyr wedi aros ar ymylon polisi ysgol ac nid yw uwch arweinwyr yn y SAU wedi gallu helpu i gau'r bwlch. Mae statws isel ymchwil mewn HCA hefyd yn dangos nad yw nodweddion arbennig – a phwysigrwydd arbennig – y sector yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn.
120. Ni wna hyn synnwyr. Bellach, cydnabyddir dros y byd i gyd mai ansawdd addysgu yw un o'r ffactorau pwysicaf, os nad y ffactor pwysicaf, y mae gan ddiwygwyr ysgolion y pŵer i'w newid. Drwy'r byd i gyd, mae hyn yn dwyn mwy o sylw nag erioed i HCA a dyfodol DPP.
121. Yn yr adolygiad hwn, cafodd cynnydd yng Nghymru o ran HCA ei bwysu a'i fesur yn erbyn meincnod heriol, a gwelwyd fod angen ei wella mewn sawl maes, yn enwedig o ran arweinyddiaeth a rheolaeth, cysondeb, cymhwysedd staff a disgwyliad ysgolion.
122. Dangosodd yr holl randdeiliaid eu bod yn derbyn yr angen am welliannau. Mynegodd y sefydliadau blaengar, fel yr Adran Addysg a Sgiliau, Estyn, CACC, CCAUC ac UCET CYMRU ddymuniaid cryf i gydweithio'n agosach. Mae

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

disgwyliadau yn codi ac mae'n hollbwysig bod yr holl randdeiliaid yn dod yn fwy uchelgeisiol o ran darpariaeth HCA, ac yn cynnal yr uchelgais hon.

123. Mae gwelliannau sylweddol mewn addysgu athrawon yn cymryd amser. Gall Llywodraeth Cymru roi arwydd bwerus o'i bwriad i godi addysgu athrawon yng Nghymru i safon fyd-eang os yw'n mabwysiadu dull systemataidd ac amlweddog o fynd ati i wella perfformiad. Gall gymryd yr awenau trwy gryfhau ei negeseuon am statws a phwysigrwydd addysgu a thrwy annog diwylliant cryf o ddatblygu proffesiynol yn ei ysgolion.
124. Bydd angen amser i wella'n sylweddol ond gellir cymryd mesurau sydyn sy'n dangos y ffordd ymlaen yn eglur. Bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yw dangos y ffordd. Mae'n ddiddorol pan fydd sylwedyddion yn ymweld â systemau sy'n perfformio'n dda, fel Singapôr neu'r Ffindir, y byddant yn aml yn gadael gyda'r sylw ei bod yn rhaid ei bod yn haws o lawer sefydlu arfer llwyddiannus mewn systemau bach.
125. Mae Cymru yn system gymharol fach. Mae angen iddi droi hyn i'w mantais ei hun a dod â phawb at ei gilydd i wneud y gwelliannau y gall eu cyflawni o ran ansawdd a chysondeb HCA.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Atodiadau

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Atodiad A

Argymhellion

1. Bod yr Adran Addysg a Sgiliau yn penodi uwch gynghorwr gyda chyfrifoldeb penodol dros HCA, a fydd yn chwarae rhan allweddol mewn darparu arweinyddiaeth o ran cyngor polisi a chodi safonau HCA gyda phob darparwr.
2. Bod Estyn a CCAUC yn cydweithredu yn agosach wrth ddilyn arolygiad, er mwyn sicrhau ymrwymiad cryfach gan ddarparwyr HCA a'r SAU cydweithredol i newidiadau a fydd yn cryfhau arweinyddiaeth lleol ac ansawdd pob Canolfan HCA yn gyflym.
3. Bod yr Adran Addysg a Sgiliau a CCAUC yn trafod cynlluniau wrth gefn ar gyfer ailddyrannu niferoedd hyfforddeion mewn achos o danberfformio parhaus, naill ai mewn Canolfannau unigol neu gan y sector cyfan.
4. Bod darparwyr HCA yn adolygu eu modelau hyfforddi a'u modelau pedagogaid er mwyn sicrhau bod hyfforddeion yn derbyn arweiniad eglur a chyson ar sut y dylent drefnu addysgu a dysgu yn eu pwnc (pynciau) a'u cyfnod(au).
5. Sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o Ysgolion Hyfforddi – wedi'u seilio ar argymhellion darparwyr ac yn cychwyn gyda nifer bach o ysgolion llwyr eu hymroddiad – er mwyn rhoi cydnabyddiaeth i'r ysgolion rheiny sydd eisoes yn chwarae rhan fawr mewn HCA, ac i greu rhwydwaith ar gyfer gwneuthurwyr polisi a darparwyr i ymgynghori â nhw, a chydweithredu gyda nhw, wrth wella ymarferion yn yr ysgol.
6. Bod darparwyr HCA yn ystyried mynd ati i benodi ar y cyd mewn pynciau â blaenoriaeth a mabwysiadu'r un dulliau o fynd ati i reoli perfformiad eu holl staff, sy'n gosod safonau uchel ac yn sicrhau bod pob tiwtor yn cael ei arfarnu yn flynyddol o ran ei gryfderau a'i feysydd lle mae angen gwella. Dylid mynd ati i gefnogi staff o ran eu datblygiad proffesiynol parhaus.
7. Bod y safonau ar gyfer SAC, ymsefydlu a gwneud cynnydd yn y tair i bum mlynedd cyntaf o addysgu yn cael eu drafftio yn yr adolygiad arfaethedig o Safonau Athrawon wrth eu Gwaith. Dylid eu drafftio a'u halinio fel eu bod yn rhoi

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

llwybr eglur i arwain dilyniant gyrfa gynnar athrawon.

8. Bod darparwyr HCA yn cymryd camau brys i gryfhau ymwneud tiwtoriaid a hyfforddeion mewn ymchwil fel bod addysgu a hyfforddiant athrawon dan ddylanwad cryf dulliau ymholi gwyddonol ymarferol.
9. Bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i hybu addysgu fel dewis gyrfa i'r graddedigion gorau oll a'r sawl sydd am newid gyrfa, gan sicrhau bod y proffesiwn yn parhau i adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yng Nghymru, ac yn cymryd camau lle bynnag y bo'n bosib i wella llwybr gyrfa i'r ymgeiswyr gorau oll.
10. Bod cymhellion addysgu athrawon yn cael eu cadw fel mesur hyblyg y gellir ei addasu bob blwyddyn i annog yr ymgeiswyr gorau mewn meysydd penodol lle mae angen.
11. Bod Llywodraeth Cymru yn cyfleu i ysgolion y neges syml a phlaen bod ymwneud parhaus mewn HCA i'w ddisgwyl ym mhob ysgol dda a phob ysgol sy'n anelu at fod yn dda.
12. Bod Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r neges i ysgolion ei bod yn disgwyl iddynt fod ag arferion a systemau datblygu proffesiynol cryf sy'n achosi athrawon i fod yn weithredol ac yn effeithiol wrth ddatblygu eu sgiliau, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bod Estyn yn archwilio'n fwyfwy beirniadol mewn arolygon ysgolion sut mae ysgolion yn cymryd camau uniongyrchol i wella ansawdd a sgiliau athrawon.
13. Bod cylch o arolygon HCA rheolaidd yn cael ei gynnal a chyda disgwyliadau uwch o ran cyhoeddi cynlluniau gweithredu a chyflwyno mesurau i wella gwendid.
14. Bod Canolfannau HCA yn cydweithredu trwy UCET CYMRU a chyda rhanddeiliaid allweddol eraill i nodi'r data perfformiad allweddol y gallant eu rhannu, er mwyn darparu meincnodau Cymru-gyfan sy'n helpu i olrhain cynnydd hyfforddeion a dangos cryfderau a gwendidau cymharol yn narpariaeth ysgolion a Chanolfannau.
15. Bod Canolfannau HCA yn rhannu eu cynlluniau gwella ac yn cytuno ar fesurau a fydd, ar y cyd, yn ogystal ag yn unigol, yn eu helpu i osod disgwyliadau uwch ar gyfer cynnydd darpariaeth HCA yng Nghymru tuag at fwy o gysondeb a gwell ansawdd.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Atodiad B

Cyfrifoldebau a'r fframwaith rheoliadol

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau polisi mewn perthynas â hyfforddiant cychwynnol a gofynion o ran cymwysterau athrawon yng Nghymru ac am osod targedau niferoedd sy'n cychwyn y cwrs bob blwyddyn, sy'n helpu i reoli'r cyflenwad o athrawon newydd gymhwyso. Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn gyfrifol am bennu lefel y cymhellion ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr ac mae'n darparu arian, trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), i Ganolfannau HCA yng Nghymru i weinyddu a chefnogi'r gwaith o ddarparu cyrsiau HCA.

Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn ariannu Canolfannau HCA i weinyddu a chyflwyno'r Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) dan gynllun hyfforddi athrawon seiliedig ar gyflogaeth.

Trwy gyrsiau gradd neu ôl-radd a gynigir mewn sefydliadau addysg uwch, y cynhelir y rhan fwyaf o HCA yng Nghymru sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC). Yn ogystal â'r llwybr traddodiadol hwn, gellir hefyd ennill SAC trwy wneud hyfforddiant athro seiliedig ar gyflogaeth, neu ddysgu o bell trwy'r Brifysgol Agored.

Er mwyn ennill SAC, rhaid i hyfforddeion ddangos eu bod yn bodloni Safonau SAC sef, ar hyn o bryd, Statws Athro Cymwysedig Cymru 2009 (2009 Rhif 25). Gellir gweld copi o Safonau SAC 2009 ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/educationwales/2009/3220099/?lang=CY>

Mae trefniadau statudol yn rheoli darparu hyfforddiant athrawon seiliedig ar gyflogaeth. Er enghraifft, mae Cynllun hyfforddi athrawon seiliedig ar gyflogaeth 2012 yn darparu ar gyfer dwy raglen: Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (RhHYR). Dan y RhAG, gellir cyflogi graddedigion nad oes ganddynt SAC i addysgu mewn ysgol wrth iddynt ddilyn rhaglen hyfforddi gymeradwy wedi'i threfnu gan ddarparwr HCA seiliedig ar gyflogaeth ac wedi'i llunio i'w galluogi i fodloni safonau SAC.

Yn dilyn cystadlu agored, dewiswyd Teach First Cymru i baratoi rhaglen a fydd yn gweld 150 o athrawon graddedig newydd yn cael eu hyfforddi dan y RhHYR ym mlynnyddoedd

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

academaidd 2013/14 ac 2015/16.

Meini prawf achredu HCA

Manylir ar ofynion mynediad ar gyfer cynlluniau hyfforddi athrawon seiliedig ar gyflogaeth yn y Cynllun a ddisgrifiwyd uchod. Manylir ar ofynion HCA ar gyfer HCA prif ffrwd yn y Meini Prawf ar gyfer Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu diweddarau'n gyfnodol. Mae'r fersiwn gyfredol ar gael yma:

<http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/educationwales/2006/3220099/?lan g=cy>

<http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/educationwales/2006/3220099/?lan g=cy>

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau meini prawf achredu HCA statudol i ystyried canlyniad ymgynghoriad diweddar fel a ganlyn:

- i. o flwyddyn academaidd 2014/15, bydd lleiafswm gofynion mynediad HCA yn newid o isafswm safonol gradd C TGAU neu gyfwerth yn Saesneg a mathemateg i un gyfwerth â gradd B
 - ii. o flwyddyn academaidd 2013/14, cyflwynir darpariaeth newydd yn ei gwneud yn orfodol i bob Canolfan HCA sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad yn cael ei (h)asesu i fod â sgiliau personol gweithredol mewn llythrennedd a rhifedd sy'n gymwys mewn cyd-destun addysgu proffesiynol
 - iii. o flwyddyn academaidd 2013/14, bydd darpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn orfodol i bob Canolfan HCA sicrhau bod sgiliau personol athrawon dan hyfforddiant mewn llythrennedd a rhifedd yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn fanwl gywir trwy gydol eu hyfforddiant; ac yn nodi bod Canolfannau HCA yn gallu bodloni eu hunain fod y safonau yn cael eu bodloni ar y pwynt lle mae hyfforddeion yn cael eu hasesu fel eu bod wedi bodloni holl Safonau SAC yn dod i rym
 - iv. o flwyddyn academaidd 2013/14, bydd darpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn orfodol i bob Canolfan HCA sicrhau bod myfyrwyr wedi'u hyfforddi mewn addysgu llythrennedd a rhifedd priodol i'r cyfnod a'r pwnc sy'n cael ei astudio, a bod hyn yn rhan annatod o gyrсияu hyfforddi
- II. ar gyfer mynediad i raglenni HCA sy'n cychwyn yn y flwyddyn academaidd 2014/15,

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

bydd yr amser mewn ysgolion yn cael ei gynyddu o 18 wythnos i 24 wythnos i'r sawl sy'n dilyn cwrs TAR cynradd;

Y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon (TPSM) a Gosod Targed Niferoedd Derbyn i HCA

Cyflwynwyd y TPSM i Gymru yn dilyn Adolygiad Furlong o HCA yn 2006. Mae prosiect ymchwil wedi'i gomisiynu i gynnal gwaith ymchwil gweithredol i edrych ar ansawdd rhagolygon y TPSM a'i werth wrth amcanestyn targedau rhanbarthol neu dargedau pynciol mwy manwl. Ar hyn o bryd, mae'r TPSM yn cynrychioli'r dadansoddiad gorau o ddata mewn gwlad hynod amrywiol lle mae cynllunio gweithlu yn fanwl yn heriol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), am ddyraniadau targed niferoedd derbyn cyffredinol HCA bob blwyddyn. Yn ei dro, bydd CCAUC yn rhoi gwybod i'r Canolfannau HCA unigol am eu dyraniadau fesul cyfnod astudiaeth, cynradd neu uwchradd a phwnc. Dyma ddolen i'r wybodaeth hon ar wefan CCAUC:

http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/itt/itt_intake_targets_cy.aspx

Cytunodd y Gweinidog ynghylch targedau HCA ynghylch y niferoedd a dderbynnir ar gyfer 2013/14 yn hydref 2012.

Cymhellion HCA

Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2013/14, mae cefnogaeth yn parhau i ganolbwyntio ar dargedu pynciau recriwtio blaenoriaethol ac ar recriwtio'r ymgeiswyr mwyaf disglair.

- bydd cymhellion blaenoriaethol ar gael i fyfyrwyr newydd cymwys yn cychwyn cyrsiau ôl-radd HCA ym mlwyddyn academiaidd 2013/14 mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, ieithoedd tramor modern, Cymraeg a TGCh
- roedd y cymhellion yn amrywiol, gan ddibynnu ar gymwysterau gradd – myfyrwyr ôl-radd cymwys gyda gradd dosbarth cyntaf oedd yn cael y lefelau ariannu uchaf, gyda symiau yn lleihau yn raddol i'r sawl a oedd â 2.1 neu 2.2, ac nid oedd arian ar gael i'r rheiny nad oedd ganddyn nhw o leiaf 2.2.

Ar wahân i'r pynciau blaenoriaethol, myfyrwyr newydd cymwys yn unig, gyda gradd dosbarth cyntaf yn cychwyn cyrsiau ôl-radd HCA ym mlwyddyn academiaidd 2013/14 yn yr holl bynciau uwchradd dynodedig neu mewn astudiaethau cynradd gafodd grantiau cymhelliant. Bydd cymhellion ychwanegol ar gael i fyfyrwyr HCA ôl-radd cynradd gyda

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

gradd dosbarth cyntaf sydd â Saesneg neu fathemateg yn bwnc arbenigol.

Mae'r gefnogaeth hon yn adeiladu ar y grant ffioedd dysgu, sydd ar gael i fyfyrwyr sydd yn preswyl fel arfer yng Nghymru ac a gychwynnodd gyrsiau HCA ôl-radd amser llawn yn y flwyddyn academaidd 2013/14 ar yr un sail â chyrsiau gradd. Gweler y grantiau cymhelliant HCA sydd ar gael yng Nghymru i fyfyrwyr newydd cymwys ar gyrsiau HCA ôl-radd (TAR) a ddynodwyd, sy'n arwain at SAC yn cychwyn ym mlwyddyn academaidd 2013/14 isod:

Cymhwyster gradd er anrhydedd y myfyriwr	Cyrsiau uwchradd ôl-radd mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, ieithoedd tramor modern, Cymraeg a TGCh	Yr holl gyrsiau uwchradd Ôl-radd a chynradd Ôl-radd
1af (a 2.1 mewn ffiseg)	£15,000	£3,000
2.1 (dim ffiseg)	£10,000	£0
2.2	£6,000	£0

Yn ogystal, mae cymhelliant o £1,000 ar gael i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni ôl-radd cynradd gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Saesneg neu fathemateg

Sicrhau Ansawdd mewn HCA

O dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'n ofynnol i CCAUC sicrhau y bydd darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y mae'n darparu, neu yn ystyried darparu, cefnogaeth ariannol iddynt.

Estyn sy'n gyfrifol am ddarparu arolygu annibynnol o ansawdd yr holl addysg a hyfforddiant y mae Llywodraeth Cymru yn ei ariannu (gan eithrio addysg uwch ond yn cynnwys HCA a hyfforddiant ar gyfer gwaith ieuencid a chymunedol). Nod Estyn yw codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru trwy arolygu a chyngor, gan gefnogi gweledigaeth a chyfeiriad strategol y manylwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfres o arolygiadau o'r sector HCA ailgyfluniedig wedi dechrau.

Y fframwaith cymwysterau

Manylir ar y gofynion sydd eu hangen gan bersonau sydd am gael eu cydnabod fel athrawon cymwysedig yng Nghymru yn Atodlen 2 Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (O.S. 2012/724). Cydnabyddir y personau a ganlyn fel athrawon

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

cymwysedig yng Nghymru cyn belled â'u bod yn bodloni rhai gofynion penodol. Rhaid i'r personau hyn:

- (a) fod â gradd dosbarth cyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu radd gyfwerth neu gymhwyster arall a ddyfarnwyd gan sefydliad tramor;
- (b) bod wedi cwblhau cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon yn llwyddiannus mewn sefydliad wedi'i achredu yng Nghymru;
- (c) bod wedi ymgymryd â chyfnod o brofiad addysgu ymarferol at ddibenion y cwrs hwnnw o hyfforddiant cychwynnol athrawon (i) yn gyfan neu yn bennaf mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall (ar wahân i uned cyfeirio disgyblion) yng Nghymru lle mae Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn cael ei addysgu mewn perthynas â'r cyfnod sylfaen, neu yr ail, trydydd neu bedwerydd cyfnod allweddol, fel sy'n briodol i'r ysgol neu'r sefydliad, a (ii) lle mae'r profiad addysgu ymarferol yn yr ysgol neu sefydliad y cyfeirir ati/ato ym mharagraff (i) yn cyfateb â ac yn briodol i'r cwrs hwnnw o hyfforddiant cychwynnol athrawon; a
- (d) bod wedi cael eu hasesu gan y sefydliad achredig fel ag yn bodloni safon SAC.

Yn ychwanegol, dyfernir SAC i'r sawl sy'n gwneud hyfforddiant athro seiliedig ar gyflogaeth yng Nghymru. Rhaid i'r personau hyn:

- (a) fod wedi cwblhau cyfnod o hyfforddiant yn llwyddiannus ar gynllun hyfforddi athrawon seiliedig ar gyflogaeth neu fodloni gofynion y cynllun mewn modd arall; a
- (b) chael eu hasesu fel rhai sy'n bodloni safon SAC gan y sefydliad achredig.

Y CACC yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru ar gyfer cydnabod athrawon â SAC, gan gynnwys ymgeiswyr sydd wedi'u hyfforddi mewn lleoedd eraill.

Amser mewn ysgol

O dan ofynion y cwrs HCA, mae'n ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod hyfforddeion yn treulio o leiaf amser penodol yn cael eu hyfforddi mewn ysgol, er gall cyrhaeddiad cydnabyddedig cynharach o'r amser mewn ysgol gyfri tua'r cyfanswm, yn ôl disgrisiwn y darparwyr. Gall lleoliadau eraill gyfri tuag at gyfanswm yr amser, gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar, chweched dosbarth a cholegau AB os yw'r rhain yn gymwys i'r cyfnodau allweddol a'r cwricwlwm y mae'r myfyriwr yn cael ei hyfforddi i'w haddysgu, a chyn belled ag y bo'r hyfforddeion yn treulio digon o amser yn yr ysgol i'w galluogi i

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

ddangos eu bod yn gallu bodloni safonau SAC.

Ar gyfer cyrsiau HCA yng Nghymru, ar hyn o bryd y cyfnodau yw:

- 24 wythnos i'r holl gyrsiau gradd dwy a thair blynedd o hyd a chysiau uwchradd ôl-radd
- 18 wythnos i'r holl gyrsiau cynradd ôl-radd (24 wythnos o 2014/15)
- 32 wythnos i'r holl raglenni gradd pedair blynedd

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau i ofynion mynediad HCA, bydd hyd y cydran cynradd ôl-radd yn yr ysgol yn newid o 18 wythnos i 24 wythnos o fis Medi 2014/15.

Mae'n ofynnol i hyfforddeion fod â phrofiad mewn o leiaf dwy ysgol, yn ddelfrydol gydag ystod amrywiol o ddisgyblion i roi profiad o leoliad mewn ysgol wrthgyferbyniol i'r hyfforddai. Mae'n rhaid i'r cyfnod ym mhob ysgol fod yn ddigonol i alluogi mentor yr hyfforddai i'w arsylwi yn addysgu a dangos tystiolaeth o'r safonau SAC gofynnol.

Perthynas gydag Ysgolion Partner

Canolfannau HCA sy'n rheoli eu perthynas gyda'u hysgolion partner. Byddan nhw'n talu'r ysgolion yn uniongyrchol ac, ar y cyfan, mae'n well ganddynt ddefnyddio ysgolion yn eu hardal leol. Mae'n bosib defnyddio ysgolion yn Lloegr am gyfnod byr o hyfforddiant, tua'r ymrwymiad amser cyfan ond, fel rheol, pan fydd safonau penodol i gwricwlwm Cymru mewn lleoliad ysgol yng Nghymru eisoes wedi'u dangos. Gall problemau o ran diffyg lleoliadau godi gyda rhai pynciau penodol sy'n golygu bod darparwyr yn cystadlu am ysgolion partner, neu yn cael anhawster wrth leoli myfyrwyr mewn pwnc penodol.

Atodiad C

Nodau Adolygiad HCA 2013

Gofynnwyd i'r adolygiad gwmpasu HCA sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) i athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Golygai hyn fynd i'r afael â darpariaeth cyrsiau gradd ac ôl-radd y mae Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) yn eu darparu ar hyn o bryd, gan gynnwys cyrsiau dysgu o bell y mae'r Brifysgol Agored yn eu darparu a hyfforddiant athrawon seiliedig ar gyflogaeth a ddarperir o dan y Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG).

Gofynnwyd i'r adolygiad ganolbwyntio ar y meysydd hynny sydd fwyaf pwysig o ran codi ansawdd addysgu, fel a ganlyn:

- a) Ansawdd a chysondeb addysgu, hyfforddi ac asesu mewn HCA; a
- b) strwythur cyrsiau HCA a'r modd yr ymdrinnir â materion penodol mewn HCA. Bydd yr eitemau hyn yn edrych ar y pethau sylfaenol y mae sefydliadau addysg uwch yn eu cyflwyno mewn HCA. Ymhlith yr ystod o faterion sy'n cael eu cynnwys mae:
 - i. y cydbwysedd rhwng profiad addysgu ymarferol mewn ysgol a hyfforddiant a arweinir gan brifysgol;
 - ii. hyd cyffredinol cyrsiau HCA;
 - iii. a yw pynciau a thestunau penodol yn cael eu cwmpasu'n ddigonol ar gyrsiau HCA; a
 - iv. sut mae'r sector yn ymgysylltu ag ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod cyrsiau HCA yn cynhyrchu ANG sy'n ateb eu hanghenion.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

Atodiad D

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r holl unigolion, sefydliadau a grwpiau sydd wedi cyfrannu eu hamser, eu data, eu meddyliau a'u syniadau i'r adolygiad hwn.

O'r dechrau, cefais gefnogaeth dda ac arweiniad gan y Gweinidog a'r swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau. Bu cydweithwyr yn y prif sefydliadau cenedlaethol hefyd yn barod iawn eu cymwynas ac ni allwn fod wedi gwneud llawer o gwbl heb y gefnogaeth hael a phroffesiynol a gefais bob amser gan gydweithwyr sy'n swyddogion uwch yn Estyn, CACC a CCAUC. Cefais gyflwyniadau ysgrifenedig llawn cymorth oddi wrth sawl corff, gan gynnwys undebau athrawon ac Addysg Uwch Cymru.

Fe fwynheais fy ymweliadau â'r Canolfannau HCA a'm trafodaethau gyda chydweithwyr o'r Brifysgol Agored yn fawr. Fe ddysgais fwy o sylwadau a myfyrdodau'r rheolwyr, y tiwtoriaid a'r ysgolion partneriaeth hyn nag o unrhyw ffynhonnell arall. Mae yna gymuned o ddarparwyr HCA, yn cael eu cefnogi gan UCET Cymru, sydd â'r potensial i arwain y sector o'r ymylon ac i safle cryfach o lawer, cyn belled â'u bod yn cael cefnogaeth ac arweiniad gweithredol gan yr Adran Addysg a Sgiliau a'u sefydliadau cyfrannol.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i CACC ac Old Bell 3 am y dystiolaeth y gwnaethant ei darparu o ran newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn. Yn ogystal, cefais help ac anogaeth gwerthfawr oddi wrth y Coleg Gymraeg Cenedlaethol ac oddi wrth gydweithwyr sy'n cynnal adolygiad y Cwricwlwm Cymreig, ac a allai roi cyngor i mi ar faterion o bwys o ran yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Cefais hefyd oleuni ehangach wrth siarad yn uniongyrchol gyda grwpiau Gweinidogol gan gynnwys Panel Ymarferwyr y Gweinidog a grwpiau adolygu eraill.

Atodiad E

Cyfeiriadau

Barber, M. a Mourshed, M. (2007). How the World's Best-Performing School Systems Come Out on Top. Llundain: McKinsey & Company.

Barber, M. a Mourshed, M. (2009). Shaping the Future: How Good Education Systems Can Become Great in the Decade Ahead. Llundain: McKinsey & Company.

Burghes, D. a Robinson, D. (2009). Lesson Study: Enhancing Mathematics Teaching and Learning. Reading: CfBT.

Darling-Hammond, L. (1999). Teacher Quality and Student Achievement: A Review of State Policy Evidence. Washington: Center for the Study of Teaching and Policy, Prifysgol Washington.

Darling Hammond, L. a Rothman, R. (Gol. 2011). Teacher and Leader Effectiveness in High Performing Systems. CA: Stanford Center for Opportunity Policy in Education.

Donaldson, G. (2011). Teaching: Scotland's Future. A Report of a Review of Teacher Education in Scotland. Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Y Comisiwn Ewropeaidd (2007). Improving the Quality of Teacher Education. Gweler: <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:C:2007:300:0006:0009:EN:PDF>.

Finnish Institute of Educational Research (FIER), Prifysgol Jyväskylä (2009). Teacher Education Curricula in the EU. Gweler: http://ec.europa.eu/education/school-education/doc/teacherreport_en.pdf.

Furlong, J., Hagger, H. a Butcher, C. (2006). Review of Initial Teacher Training Provision in Wales. Rhydychen: OUDES.

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (2012). Profiadau ANG ynghylch cwblhau AHCA a Sefydlu. Caerdydd: CACC.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru

PAEM, Cymru (2012). Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2011-2012. Caerdydd: Estyn.

Menter, I., Hulme, M., Elliot, D. a Lewin, J. (2010). Literature Review on Teacher Education in the 21st Century. Caeredin: Gwasanaethau Dadansoddi Addysg Llywodraeth yr Alban.

Musset, P. (2010). Initial Teacher Education and Continuing Training Policies in a Comparative Perspective: Current Practices in OECD Countries and a Literature Review on Potential Effects. Education Working Papers, Rhif 48. Paris: OECD.

National Institute of Education (2009). TE21: A Teacher Education Model for the 21st Century. Singapôr: NIE.

National Institute of Education (2011). Six Decades of Transforming Teaching. NIE Annual Report: Key Highlights of AY 2009/10. Singapôr: NIE.

OECD (2010). Strong Performers and Successful Reformers in Education: Lessons from PISA for the United States. Paris: OECD Publishing.

Rock, T. and Wilson, C. (2005) 'Improving teaching through lesson study', Teacher Education Quarterly, Gaeaf 2005.

Sahlberg, P. (2010). The Secret to Finland's Success: Educating Teachers. Stanford, CA: Stanford University School of Education.

Sahlberg, P. (2011). Developing effective teachers and school leaders: the case of Finland. In Darling Hammond, L. and Rothman, R. (Eds. 2011). Teacher and Leader Effectiveness in High Performing Systems. Op cit.

Schleisser, A. (Gol. 2012). Preparing Teachers and Developing School Leaders for the 21st Century: Lessons from around the world. Paris: OECD Publishing.

Llywodraeth Cymru (2012). Gwella Ysgolion. Caerdydd: Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.